# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 14 IONAWR 2015 am 2.00 o'r gloch | | WEDNESDAY, 14 JANUARY, 2015 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**<u>AELODAU / MEMBERS</u>**
Cynghorwyr / Councillors:-

**<u>Annibynnol / Independent</u>**

D R Hughes (Cadeirydd/Chair), W T Hughes, Richard Owain Jones a
Dafydd Rhys Thomas

**<u>Plaid Cymru / The Party of Wales</u>**

John Griffith, Carwyn Jones, Alun W Mummery (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Dylan Rees

**<u>Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party</u>**

Sedd Wag/Vacant Seat

**<u>Heb Ymuno / Unaffiliated</u>**

R.Ll.Jones

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr Gerallt Llewelyn Jones ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Mentor Môn)

# R H A G L E N

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 27 Tachwedd, 2014.

**4** **TREFNIADAU SGRIWTINI Y BWRDD GWASANAETH LLEOL AR Y CYD ARFAETHEDIG** (Tudalennau 11 - 18)

Cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r uchod.

**5** **FFRAMWAITH ADODDIADAU BLYNYDDOL Y CYNGHORAU (ACRF) AROLYGU, GWERTHUSO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AWDUDODAU LLEOL** (Tudalennau 19 - 38)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cymuned.

**6** **DIOGELU CORFFORAETHOL (PLANT)** (Tudalennau 39 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Plant.

**7** **DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD NEU IS-GADEIRYDD**

**8** **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 57 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Derlwyn Rees Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, R Ll Jones, Dylan Rees a Dafydd Rhys Thomas.<br><br>Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig). |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Corfforaethol (Dysgu Gydol Oes) (Eitem 7)<br>Uwch Reolwr ar gyfer Safonau Ysgol (TR) (Eitem 7)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Tai) (Eitemau 5 a 6)<br>Rheolwr Gwasanaethau Technegol (Tai) (DR) (Eitem 5)<br>Prif Swyddog Technegol (Grantiau) (JGD) (Eitem 6)<br>Swyddog Sgriwtini<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr William Thomas Hughes, Carwyn Jones, Richard Owain Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio (Addysg) (Eitemau 4 & 7),<br>Deilydd Portffolio (Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) (Eitemau 5, 6, 8 & 9),<br>Mr. Elfyn Jones GwE: Uwch Ymgynghorydd Herio (Eitem 7),<br>Uwch Reolwr Partneriaeth (Gwynedd & Ynys Môn) (AD) (Eitem 5),<br>Mr. John R. Jones – Uwch Swyddog Medrwn Môn. |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Eitem 7 ac roedd yn dymuno nodi ei fod yn cynrychioli'r awdurdod fel Llywodraethwr ar Grŵp Defnyddwyr GwE.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2014.

**4 CYNLLUN INTEGREDIG SENGL GWYNEDD AC YNYS MÔN A THREFNIADAU SGRIWTINI BWRDD GWASANAETH LLEOL AR Y CYD ARFAETHEDIG**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Uwch Reolwr Partneriaethau Gwynedd a Môn.

Dywedodd yr Uwch Reolwr Partneriaeth bod Bwrdd Gwasanaeth Gwynedd a Môn wedi gwneud nifer o benderfyniadau arwyddocaol yn ymwneud â'i weledigaeth a'i gyfeiriad strategol i'r dyfodol. Yn y cyfarfod diwethaf o'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol a gynhaliwyd ar 26 Medi 2014 roedd ystyriaeth wedi ei roi i'r canlynol:-

- Cyfres ddrafft o egwyddorion gweithredu i sylfaenu gweithrediad a gwaith y Bwrdd;
- Rhai gwerthoedd partneriaeth sylfaenol;
- Cylch gorchwyl drafft;
- Blaenoriaethau allweddol a rennir ar gyfer eu darparu dros y ddwy flynedd nesaf;
- 10 UCHAF o faterion BGLl sydd ar y radar.

Y tair blaenoriaeth allweddol a rennir ac sydd yn dod i'r amlwg i'r BGLl yw :-

- Blaenoriaeth Allweddol 1 – Pobl Hŷn
- Blaenoriaeth Allweddol 2 – Teuluoedd sydd mewn anghaffael
- Blaenoriaeth Allweddol 3 – Cymunedau Cynaliadwy/Adfywio Cymunedol

gyda thri o Alluogwyr yn eu sylfaenu – Technoleg, Iaith a Diwylliant ac Ymgysylltiad.

Yn amodol ar gael cymeradwyaeth BGLl ar 28 Tachwedd, y cam nesaf fyddai datblygu pob ffrwd waith ymhellach gan roi ystyriaeth arbennig i'r canlynol :-

- Canlyniadau sefydliadol a ddymunir yn ôl pob Blaenoriaeth Allweddol a Galluogwr ar gyfer pob partner BGLl dros y 2 flynedd nesaf;
- Sail tystiolaeth ar gyfer pob Blaenoriaeth/Galluogwr;
- Cyfraniad partneriaeth BGLl i bob ffrwd waith;
- Y strwythur darparu a llywodraethiant o dan y BGLl i wneud cynnydd gyda phob Blaenoriaeth Allweddol a Galluogwr.

Adroddodd y Swyddog ymhellach mai un ffrwd waith gyfredol oedd wedi ei blaenoriaethu oedd datblygu trefniadau sgriwtini aelodau etholedig sy'n sylfaen i waith Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn. Y prif amcan fu ystyried sut i ddatblygu trefniadau sgriwtini cadarn, a darparu lefel briodol o her i'r Bwrdd ar y cyd ar draws y ddwy Sir er mwyn adlewyrchu mandad y BGLl. Yng ngoleuni cefnogaeth Aelodau Etholedig Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn, roedd gwaith wedi ei wneud gyda datblygu trefniadau sgriwtini BGLl ar y cyd :-

- Grŵp Prosiect Tasg a Gorffen Aml-asiantaethol wedi ei sefydlu. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub, Heddlu Gogledd Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Awdurdodau Lleol. Roedd y Grŵp ar hyn o bryd yn negodi cynrychiolaeth trydydd sector.
- Roedd papur opsiynau cychwynnol wedi ei ddatblygu yn amlinellu'r modelau sgriwtini ar y cyd posib i'w hystyried gan Aelodau Etholedig.
- Mewnbwn a mentora wedi'u negodi gan y Ganolfan ar gyfer Sgriwtini Cyhoeddus trwy gydol y broses o ddatblygu'r trefniadau sgriwtini ar y cyd ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd.

Adroddwyd ymhellach y byddai'r camau nesaf yn y ffrwd waith sgriwtini ar y cyd yn canolbwyntio ar:

- Cwblhau'r papur gwerthuso opsiynau yn rhoi ystyriaeth i fanteision ac anfanteision pob model sgriwtini;
- Cyflwyno cynigion ar gyfer trefniadau sgriwtini ar y cyd i'w hystyried gan Bwyllgorau Sgriwtini'r ddau Awdurdod Lleol yn gynnar yn y flwyddyn newydd. (Y cynigion i gynnwys gwerthusiad opsiynau llawn ar gyfer pob model).
- Ceisio cael mewnbwn y Trydydd Sector i'r Gwerthusiad Opsiynau o'r modelau sgriwtini.

Materion a godwyd gan Aelodau :-

- Cyfeiriodd yr Aelodau at gyfrifoldebau penodol BGLl gan gwestiynu unrhyw bwerau oedd gan y BGLl i sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad priodol yn eu lle i weithredu gwelliannau, bod rheolwyr a staff llinell flaen ar draws asiantaethau yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd a bod blaenoriaethau cytunedig yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau corfforaethol y sefydliadau unigol. Ymatebodd yr Uwch Reolwr Partneriaethau trwy gyfeirio at drefniadau oedd yn eu lle gan Lywodraeth Cymru trwy gyfarwyddyd statudol - *Cydamcanu, Cydymdrechu.* Nid oedd y Bwrdd ar hyn o bryd yn swyddogaeth statudol ond byddai'n dod yn un statudol yn dilyn dyfodiad y Mesur Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (o Ebrill 2016).

- Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynglŷn â sut byddai diddordebau'r Trydydd Sector yn cael eu cynrychioli yn y trefniadau sgriwtini BGLl ar y cyd arfaethedig. Dywedodd yr Uwch Reolwr Partneriaethau bod trafodaethau'n parhau gyda chyrff cynrychioliadol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Byddai canlyniad y trafodaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y cynigion fyddai'n cael eu cyflwyno er ystyriaeth Aelodau Etholedig yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

**PENDERFYNWYD :-**

- **I dderbyn yr adroddiad a chefnogi'r blaenoriaethau allweddol arfaethedig a galluogwyr y Bwrdd Gwasanaethau Lleol fel yr oeddynt wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad.**

- **I nodi'r cynnydd hyd yn hyn a'r camau nesaf a fwriedir i ddatblygu trefniadau sgriwtini ar y cyd aelodau etholedig sy'n sylfaen i waith y BGLl.**

**GWEITHREDU : Adroddiad i'w gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn rhoi gwerthusiad o fodelau sgriwtini posibl ar gyfer datblygu trefniadau sgriwtini ar y cyd i'r BGLl gyda Chyngor Gwynedd.**

## 5 CYMHORTHDAL CYFRIF REFENIW TAI – CYTUNDEB GWIRFODDOL

Cyflwynwyd - adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai ynglŷn â'r uchod.

Dywedwyd bod Trysorlys Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb fydd yn caniatáu i'r 11 Awdurdod yng Nghymru sydd wedi cadw eu stoc o dai Cyngor dynnu allan o'r system nawdd Cyfrif Refeniw Tai (CRT) a dod yn hunan-gyllidol o fis Ebrill 2015. Roedd y gwerth setlo hefyd ar gyfer mynd allan wedi ei negodi. Bydd cyfrif CRT yr Awdurdod Lleol yn well allan yn ariannol o tua £765k y flwyddyn, trwy dalu llai o log ar y benthyciadau presennol. Er mwyn i hyn ddigwydd, bydd angen i bob un o'r 11 Awdurdod Lleol arwyddo Cytundeb Gwirfoddol. Yn dilyn dod yn hunan-gyllidol, bydd pob un o'r 11 Awdurdod yn gallu :-

- Cyflymu gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), er mwyn sicrhau cyflawni hynny erbyn 2020, a'i gynnal ymlaen i'r dyfodol. O'r 11, dim ond 4 sydd wedi cyflawni SATC – ac mae Cyngor Sir Ynys Môn yn un ohonynt.
- Cynyddu'r buddsoddiad yn y cartrefi presennol ac mewn adfywio cymunedau dros y tymor byr, canolig a hir;
- Sicrhau y bydd tenantiaid yn elwa o wasanaethau tai mwy effeithlon ac effeithiol.
- Cynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy newydd.
- Cynyddu buddsoddiad mewn ystod o flaenoriaethau lleol eraill allai gynnwys cynyddu effeithlonrwydd ynni tai'r Cyngor, adfywio stadau, ail-fodelu anghenion cyffredinol neu dai gwarchod, a phrynu cartrefi presennol i gynyddu'r cyflenwad;
- Ystyried y stoc dai ac asedau cysylltiedig megis garejys, eiddo masnachol a thir gydag ymagwedd debycach i fusnes yn y tymor hir.
- Creu swyddi a chyfleon hyfforddi a chynyddu buddsoddiad yn yr economi leol.

Nodwyd y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Rhagfyr 2014 ynghyd â'r argymhellion oedd yn yr adroddiad.

Materion a godwyd gan Aelodau :-

- Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â dyfodol y stoc dai os oedd Ad-drefnu Llywodraeth Leol yn digwydd. Roedd yr awdurdod cyfagos wedi rhoi ei stoc dai i Gymdeithas Dai. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai nad oedd y mater hwn wedi ei drafod ar lefel genedlaethol. Dywedodd ymhellach nad oedd yn fater i Lywodraeth Leol ei benderfynu a fyddai'r stoc dai yn cael ei werthu ai peidio, byddai'r tenantiaid yn cael cyfle i bleidleisio ar ddyfodol y stoc dai. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol sydd wedi allanoli eu stoc dai wedi trosglwyddo'r stoc i Gymdeithas Dai am ffi fechan.
- Roedd yr Aelodau'n dymuno ymestyn eu gwerthfawrogiad i'r Gwasanaeth Tai am drefnu'r Fforwm diweddar ynglŷn â'r mater hwn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r argymhellion oedd yno.**

**GWEITHREDU : Nodi y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Rhagfyr 2014.**

## 6 Y NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R STRATEGAETH A'R POLISI ADNEWYDDU TAI SECTOR PREIFAT

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

Adroddwyd bod y Cyngor wedi cynnig grantiau i wella tai sector preifat. Roedd y Gorchymyn Diwygio Rheolaethol (Cymorth Tai) (Lloegr a Chymru) 2002 wedi newid y fframwaith deddfwriaethol oedd yn rheoli gallu Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth ariannol i berchnogion tai ac mae'n caniatáu i awdurdodau gynnig benthyciadau ariannol. Tra'n cydnabod bod benthyca arian drwy ddarparu benthyciadau ad-daladwy yn ddull mwy economaidd o ddefnyddio adnoddau cyfyngedig y Cyngor, y bwriad yw y bydd y Gwasanaethau Tai yn cyflwyno cymorth trwy fenthyciadau arian yn lle rhai o'r grantiau presennol. Yn Ionawr 2015, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lansio Cronfa Gwella Cartrefi Ad-daladwy fel y gall awdurdodau lleol ddarparu cynllun benthyca i wella tai. Er mwyn gallu cymryd rhan yn y cynllun hwn, bydd angen i'r Cyngor fod mewn sefyllfa i gynnig benthyciadau o dan ei Bolisi Adnewyddu Tai Sector Preifat, cyn y gellir sicrhau cronfeydd. Bydd angen gwneud newidiadau felly i'r Polisi Adnewyddu Tai Sector Preifat fel ei fod yn adlewyrchu'r newidiadau a fwriedir. Ni fydd grantiau cyfleusterau mandadol i'r anabl yn cael eu heffeithio a bydd y rhain yn parhau i fod ar gael o dan ddarpariaethau Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

Dywedwyd y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith nesaf i'w gymeradwyo.

Materion a godwyd gan yr Aelodau :-

- Roedd yr Aelodau yn croesawu'r benthyciadau di-log o £1,000 hyd at uchafswm o £25,000 ar gyfer gwella tai ond roeddent yn bryderus ynglŷn â sut y bydd yr awdurdod yn gweinyddu hyn oll ac yn lliniaru rhag y risg na fyddai'r ymgeiswyr yn talu'r dyledion yn ôl. Dywedodd y Swyddogion y bydd yr ymgeiswyr yn destun asesiad fforddiadwyaeth er mwyn sicrhau y gallant fforddio'r benthyciad ac nad oes ganddynt hanes o gredyd gwal. Bydd yr holl fenthyciadau yn cael eu diogelu fel pridiant yn erbyn yr eiddo. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud fel rhan o waith gweinyddu'r benthyciad gan Street UK Services Limited.

- Dywedodd yr Aelodau eu bod yn dymuno gweld mwy o gartrefi gwag yn cael eu huwchraddio a'u bod ar gael i deuluoedd lleol ac i'r digartref.

- Bydd y gweithwyr fydd yn dod i Ynys Môn i adeiladu'r orsaf Wylfa Newydd arfaethedig yn cael effaith ar y tai fydd ar gael i'w rhentu ym Môn.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cefnogi'r newidiadau i'r strategaeth a'r polisi adnewyddu tai sector preifat (fel yn Atodiad 1) yn amodol ar yr ymgynghori gyda phartneriaid a sefydliadau allanol.**

- **Cefnogi penodi Street UK Services Limited, sef darparwr trydydd parti, i weinyddu a rheoli cynlluniau benthyciadau ar ran y Cyngor a throsglwyddo i Street UK Services Limited yr arian a ddyrannwyd i'r Cyngor ar gyfer rhoi benthyciadau fel 'Arian Cyfleuster' er mwyn gwasanaethu'r benthyciadau, yn amodol ar argymhellion y Swyddog Adran 151.**

**GWEITHREDU: Nodi y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Rhagfyr 2014 i'w ystyried.**

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH GYDA'R GWASANAETH GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL (GwE)**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes mewn perthynas â'r uchod.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Elfyn Jones, Uwch Ymgynghorydd Her o GwE ac i Mr Trebor Roberts, Uwch Reolwr ar gyfer Safonau Ysgol a Chynhwysiad ac fe'u gwahoddodd i annerch y cyfarfod.

Adroddwyd bod y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru i fod yn atebol i'r Cynghorau ac i gyflawni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â gwella ysgolion ac yn benodol i fonitro, herio a darparu gwasanaethau cefnogaeth. Amlygir natur ac ystod y disgwyliadau mewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth a lluniwyd y model darparu ar sail nifer penodol o ddyddiau a neilltuir ar gyfer:-

- Cynnal ymweliadau monitro tymhorol;
- Cefnogi ysgolion sydd mewn categori risg (ambr/coch);
- Cefnogaeth cyn ac ar ôl arolygon.

Yn 2014, trwy gyfrwng y Model Cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno disgwyliadau cenedlaethol pellach ac ehangach ar gyfer gwaith y consortiwm. Mae'r gwaith cynllunio i ymateb i'r gofynion hyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys dadansoddiad o berfformiad ysgolion Ynys Môn yn erbyn y gwahanol ddangosyddion.

Mae GwE wedi derbyn gwybodaeth gan y Rhaglen Gefnogaeth Genedlaethol ynghylch anghenion cefnogaeth yr holl ysgolion yn Ynys Môn o ran rhifedd a llythrennedd. Mae GwE hefyd wedi dadansoddi canlyniadau profion ac wedi nodi'r ysgolion ym mhob awdurdod lleol gyda'r perfformiad gorau a'r perfformiad gwaethaf. Bydd yr ysgolion gwanaf o ran eu perfformiad yn derbyn cymorth wedi ei dargedu a bydd yr ysgolion sy'n perfformio orau yn cael cyfleon i rannu eu harferion effeithiol.

Dywedodd yr Aelod Portffolio (Addysg) ei fod yn bwysig bod aelodau etholedig yn ymwybodol o Fframwaith Estyn, gofynion Swyddfa Archwilio Cymru a disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â llywodraethiant a rheolaeth y consortiwm

rhanbarthol a'u bod mewn sefyllfa i ateb cwestiynau fel y rheini a restrir yn yr adroddiad fel rhan o hunanasesiad a sicrwydd ansawdd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Dysgu Gydol Oes) mai hwn yw'r Adroddiad Blynyddol ar y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol ers iddo gael ei sefydlu y llynedd.  Dywedodd bod y cydweithio rhwng Swyddogion yr Awdurdod Addysg a GwE yn hynod o gadarnhaol.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini yn falch o weld gwelliant ym mherfformiad Ysgolion Môn fel yr amlygwyd yn yr adroddiad.  Awgrymwyd y dylid dosbarthu'r adroddiad i holl Aelodau Etholedig y Cyngor Sir er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Bod copi o'r adroddiad yn cael ei gylchredeg i Aelodau'r Cyngor Sir.**

## 8 ADRODDIAD BLYNYDDOL – 'GWRANDO AR GWYNION A DYSGU OHONYNT'

Cyflwynwyd - adroddiad mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Rheolydd yr Uned Cymorth i Fusnesau fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion statudol yng Nghymru.  Hyd at Awst 2014 roedd hyn yn unol â'r rheoliadau a'r cyfarwyddyd 'Gwrando a Dysgu' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006. Mae'n rhaid cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i Bwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol ar gyfer sgriwtini ac i fonitro'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.

Materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Nid oedd yr amserlen ar gyfer ymateb i gwynion Cam 2 yn realistig oherwydd gall y drefn fod yn gymhleth. Mae'n rhaid rhoi sicrwydd i'r achwynydd bod y gŵyn yn cael sylw priodol ac nad yw'r gwaith ymchwilio'n cael ei gyfyngu gan ddyddiadau cau.
- Roedd yr Aelodau yn falch o nodi bod yr Adran yn adolygu cwynion a gafwyd dros y flwyddyn ac yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer y gwasanaeth.
- Pan dderbynnir cwyn dylai'r achwynydd fod yn fodlon ei bod yn cael sylw priodol trwy'r system gwynion.

Ymatebodd Rheolydd yr Uned Cymorth i Fusnesau trwy ddweud bod staff yn yr adran wedi cael arweiniad fel rhan o'r Siarter Gofal Cwsmer ar y ffordd orau i ddelio gyda chwynion.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi natur y cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2013/14 ynghylch y gwasanaeth a ddarperir gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.**

- **Nodi perfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wrth weithredu'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a delio â chwynion.**
- **Nodi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer datblygu'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â sylwadau a chwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.**

**9 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL - TREFNIADAU DIOGELU AR GYFER OEDOLION BREGUS YN YNYS MÔN**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion mewn perthynas â'r uchod.

Adroddwyd mai bwriad Polisi a Gweithdrefnau Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu Oedolion Bregus rhag camdriniaeth yw llywio gwaith diogelu pawb sy'n ymwneud â lles oedolion bregus a gyflogir yn y sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol yn y meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, yr heddlu a gwasanaethau eraill. Mae cydweithio da rhwng asiantaethau yn sicrhau bod yr holl gyfeiriadau'n cael eu rheoli'n effeithiol ac effeithlon gyda'r nod o wella perfformiad yn barhaus a diogelu dinasyddion mwyaf bregus Ynys Môn.

Mae'r Gwasanaethau Oedolion a phartneriaid allweddol yn cydnabod yr angen i gytuno ar gynllun gweithredu a'i roi ar waith er mwyn paratoi ar gyfer y canllawiau diogelu newydd fel yr amlinellir nhw yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a Llesiant. Mae Bwrdd Diogelu Gwynedd a Môn yn amlinellu'r gweithdrefnau a'r gyrwyr ar gyfer newid arferion a roddir ar waith gan reolwyr gwasanaeth allweddol ar draws y sectorau.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r diweddariad ynghylch diogelu a amlinellir yn yr adroddiad, Ynys Môn – Diogelu Oedolion Bregus, Adroddiad Amlygu 2013/14 (Atodiad 1).**
- **Nodi a chytuno'r datblygiadau a amlinellwyd yn Adran 5 yr Adroddiad Amlygu.**
- **Nodi'r diweddariad ynghylch Trefniadau Lleol a Rhanbarthol y Bwrdd Diogelu Oedolion (Atodiad 2).**
- **Nodi a chytuno'r argymhellion a amlinellir yn Adran 3 yr adroddiad.**
- **Cefnogi bod yr aelodau yn parhau i ymgysylltu â'r Rhaglen Ddiogelu gyffredinol.**

**GWEITHREDU: Nodi y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith gyda hyn.**

**10 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD NEU'R IS-GADEIRYDD**

Adroddodd y Cadeirydd fod cyfarfod briffio wedi ei drefnu ar gyfer Cynghorau Tref/Cymuned a'r trydydd sector ar 18 Rhagfyr 2014 ar y Weithdrefn Sgriwitini a Rhaglenni Gwaith y ddau bwyllgor Sgriwtini.

Nododd y Swyddog Sgriwtini fod Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y ddau Bwyllgor Sgriwtini wedi cael gwahoddiad i fynychu.

Dywedodd yr Is-Gadeirydd ei fod wedi mynychu sesiwn o'r enw 'Added Value of Scrutiny' a gynhaliwyd gan Mr Rod Alcott o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i baratoi ar gyfer yr Asesiad Llywodraethiant Corfforaethol a gynhelir ym mis Chwefror 2015.

## 11 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd a nodwyd – y rhaglen waith ddrafft.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm

**Y CYNGHORYDD D.R. HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I :** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **DYDDIAD :** | **14 Ionawr 2015** |
| **PWNC :** | **Trefniadau Sgriwtini y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y Cyd Arfaethedig** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y Cynghorydd Ieuan Williams** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad ar y cyd gan :-**<br>• **Anwen Davies (Uwch Reolydd Partneriaethau Gwynedd a Môn)**<br>• **Vera Jones (Rheolydd Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Gwynedd)**<br>• **Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini Cyngor Sir Ynys Môn)** |
| **Ffôn :**<br>**E-bost :** | **01286 679723 / 01286 679267 / 01248752039**<br><br>**AnwenDavies2@gwynedd.gov.uk**<br>**verajones@gwynedd.gov.uk**<br>**GeraintWRoberts@ynysmon.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLIAD

- Bod y Pwyllgor yn cytuno i symud ymlaen ag Opsiwn B (h.y. sefydlu Panel Sgriwtini Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn ar y Cyd) a gofyn swyddogion i symud ymlaen gyda cwblhau trefniadau ymarferol i gynnwys materion fel trefniadau aelodaeth, trefniadau gweithredu a hyfforddi, rhestr o gyfarfodydd a lleoliad.

## 2.0 RHESWM

2.1 Mae nifer o ddogfennau ar gael ynglŷn â sgriwtini Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLl). Er enghraifft, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn 2013[1] oedd yn ceisio casglu gwybodaeth ar y sefyllfa bresennol parthed sgriwtini BGLl yng Nghymru yn cynnwys dealltwriaeth o hyd a lled sgriwtini BGLl yn ogystal ag ysgogwyr a rhwystrau i sgriwtini BGLl effeithiol.

2.2 Roedd adroddiad a gyhoeddwyd ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a CfPS[2] yn 2010 gyda'r teitl “Sgriwtini Partneriaethau Aml-

[1] Horton, Kimberley (2013); Sefydlu llinell sylfaen ar gyfer craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol: Llywodraeth Cymru.

[2] Y Ganolfan ar gyfer Sgriwtini Cyhoeddus- sefydliad gyda'i brif ffocws ar sgriwtini, atebolrwydd a llywodraethu da yn y sector cyhoeddus ac mewn sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyllid cyhoeddus.

Asiantaethol” yn amlinellu rhai o’r gwersi a ddysgwyd o ddatblygu trefniadau sgriwtini Byrddau Gwasanaethau Lleol ac yn nodi rhai pwyntiau pwysig i’w cadw mewn cof pan yn datblygu trefniadau.

- Pwysigrwydd cymryd i ystyriaeth systemau ‘sgriwtini’ neu atebolrwydd sydd wedi eu sefydlu eisoes gan bartneriaid eraill. Dylai trosolwg a sgriwtini ategu yn hytrach na dyblygu’r systemau atebolrwydd presennol.

- Eglurder o ran sgôp gweithgaredd sgriwtini – y bydd sgriwtini yn canolbwyntio ar y bartneriaeth yn hytrach nag ar y sefydliadau unigol sydd yn y bartneriaeth; sydd yn strategol yn hytrach nag yn weithredol, a’i fod yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

- Mae’n bwysig rheoli disgwyliadau’r rhai sy’n gwneud y gwaith sgriwtineiddio a’r rhai sy’n cael eu sgriwtineiddio ac i adeiladu, cynnal a datblygu ymhellach yr ymddiriedaeth rhwng sgriwtineiddwyr a’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

- Ceisio cael adborth gan bartneriaid a chael ein gweld yn gweithredu arno - mae hyn yn dangos bod y broses sgriwtini yn barod i fod yn hyblyg ac i weithio gyda phartneriaid i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgysylltu’n gynhyrchiol o fewn sgriwtini.

- Bod yn ymwybodol o’r cyd-destun y mae sgriwtini’n gweithredu oddi mewn iddo - mae angen bod yn sensitif i newidiadau mewn deinameg partneriaethau a sut y gall sgriwtini helpu neu waethygu’r rhain. Fe all fod risgiau ynghlwm wrth gynnal ymarferion sgriwtini heriol yn rhy fuan, cyn bod perthnasau wedi eu sefydlu a heb i rai sy’n cymryd rhan yn y sgriwtini fod wedi prynu i mewn yn llawn i hynny.

- Y pwysigrwydd o adeiladu perthnasau gyda phartneriaid all fod yn destun sgriwtini. Cymryd amser i egluro rôl sgriwtini i bartneriaid a sut y gall y broses ein helpu â hyn.

2.3 Er mwyn bod mewn sefyllfa i roi cyngor i’r Aelodau ar opsiynau posibl i sgriwtineiddio BGLl Gwynedd a Môn, mae Grŵp Prosiect Tasg a Gorffen aml-asiantaethol wedi cael ei sefydlu. Mae’r aelodau wedi cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Swyddogion Sgriwtini o’r ddau Gyngor. Er mwyn cael persbectif annibynnol, fe wahoddwyd y Ganolfan ar gyfer Sgriwtini Cyhoeddus hefyd i wneud sylwadau a rhoi mewnbwn ar yr ystod o opsiynau i’w hystyried gan yr Aelodau Etholedig yn y ddau Awdurdod Lleol. Mae’r Grŵp Tasg a Gorffen hefyd wedi ceisio cael safbwyntiau Medrwn Môn a Mantell Gwynedd fel y sefydliadau ambarél sy’n cynrychioli diddordebau’r Sector Gwirfoddol.

2.4 Yng ngoleuni ei drafodaethau, mae'r Grŵp Tasg a Gorffen aml-asiantaethol a'r Ganolfan ar gyfer Sgriwtini Cyhoeddus yn cynnig bod yna dri opsiwn i Aelodau Etholedig eu hystyried ac y gellir eu crynhoi fel a ganlyn :-

- **Opsiwn A** – Cadw'r trefniadau Pwyllgor Sgriwtini presennol yng Nghyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd.
- **Opsiwn B** – Sefydlu Panel Sgriwtini BGLl Gwynedd a Môn ar y Cyd.
- **Opsiwn C** – Sefydlu Pwyllgor Sgriwtini BGLl Gwynedd a Môn ar y Cyd.

2.5 Y mae i bob opsiwn ei gryfderau, ei wendidau, cyfleon a bygythiadau ei hun. Er mwyn rhoi digon o wybodaeth i Aelodau Etholedig i wneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen, roedd y Grŵp Tasg a Gorffen aml-asiantaethol yn credu ei bod yn bwysig i ddwyn sylw'r Aelodau Etholedig at bapur gwerthuso opsiynau. Mae'r papur hwnnw ynghlwm fel **Atodiad 1**.

2.6 Er bod i bob opsiwn ei fanteision a'i anfanteision ei hun, mae'r Grŵp Tasg a Gorffen aml-asiantaethol yn unfrydol ei farn y dylid cynnig Opsiwn B (sefydlu Panel Sgriwtini Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn ar y Cyd) fel yr opsiwn a ffefrir i'w ystyried gan Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

2.7 Gan ddibynnu ar ba opsiwn gaiff ei gefnogi gan Aelodau Etholedig y ddwy Sir, y cam nesaf fydd i'r Grŵp Tasg a Gorffen aml-asiantaethol ailymgynnull i ystyried trefniadau ymarferol fel aelodaeth y Fforwm Sgriwtini ar y Cyd, trefniadau gweithredu a hyfforddi, y rhestr o gyfarfodydd a lleoliad. Bydd y Ganolfan ar gyfer Sgriwtini Cyhoeddus yn darparu cefnogaeth a gwasanaeth mentora wrth i ni symud ymlaen i weithredu'r trefniadau sgriwtini ar y cyd arfaethedig.

2.8 Gyda golwg ar sicrhau y bydd digon o wybodaeth ar gael fel y gall Aelodau Etholedig wneud argymhelliad gwybodus ar y model sgriwtini ar y cyd a ffefrir, mae **Atodiad 2** yr adroddiad hwn yn crynhoi rhai o'r materion allweddol yn ymwneud â'r manylion sy'n sylfaen i Opsiwn B (sefydlu Panel Sgriwtini BGLl Gwynedd a Môn ar y Cyd) :-

- Aelodau;
- Trefniadau Llywodraethu ac adrodd yn ôl;
- Amlder y cyfarfodydd.

| |
|---|
| **ATODIAD 1 - PAPUR GWERTHUSO OPSIYNAU** |
| **ATODIAD 2- MATERION ALLWEDDOL SY'N SYLFAEN I OPSIWN B** |

Adroddiad ar y Cyd gan : Anwen Davies (Uwch Reolydd Partneriaethau Gwynedd a Môn), Vera Jones (Rheolydd Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Gwynedd), Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini Cyngor Sir Ynys Môn)

Dyddiedig : 2 Ionawr 2015

# ATODIAD 1

<table>
<tr><th colspan="2">OPSIWN A : CADW’R TREFNIADAU PWYLLGOR SGRIWTINI CYFREDOL YNG NGHYNGOR GWYNEDD A CHYNGOR SIR YNYS MÔN<br><br><u>DADANSODDIAD SWOT</u></th></tr>
<tr><td><u>Cryfderau</u><ul><li>Y Strwythur yn ei le.</li><li>Aelodau a Swyddogion yn gyfarwydd â phrosesau eu Cynghorau eu hunain.</li><li>Gall y ddau Bwyllgor Sgriwtini wneud eu hargymhellion eu hunain i BGLl.</li></ul></td><td><u>Gwendidau</u><ul><li>Dyblygu gwaith gan ddau Gyngor.</li><li>Byddai’n rhaid i bartneriaid fynychu dau Bwyllgor Sgriwtini.</li><li>Capasiti i sgriwtineiddio’r BGLl yn gyfyngedig oherwydd llwyth gwaith y Pwyllgor Sgriwtini presennol.</li><li>Aelodau Etholedig Llywodraeth Leol sy’n arwain sgriwtini (dim neu lai o fewnbwn gan bartneriaid eraill).</li></ul></td></tr>
<tr><td><u>Cyfleon</u><ul><li>Gallai’r ddau Bwyllgor Sgriwtini cyfredol gyfarfod gyda’i gilydd i ystyried materion ond gan wneud eu hargymhellion eu hunain ar wahân i’r BGLl neu bartneriaid ond byddai angen datblygu hyn ymhellach.</li></ul></td><td><u>Bygythiadau</u><ul><li>Beirniadaeth Swyddfa Archwilio Cymru am effeithlonrwydd y model.</li><li>Beirniadaeth Llywodraeth Cymru oherwydd methiant i gydweithio.</li></ul></td></tr>
</table>

| **OPSIWN B : SEFYDLU PANEL SGRIWTINI BGLl GWYNEDD A MÔN AR Y CYD**<br>**DADANSODDIAD SWOT** | |
|---|---|
| Cryfderau<br>• Dim dyblygu<br>• Ni fyddai raid i bartneriaid a swyddogion yn BGLl ond adrodd yn ôl i un Panel.<br>• Byddai gan y Panel fwy o gapasiti gan mai ei unig orchwyl fyddai sgriwtineiddio'r BGLl.<br>• Byddai'r Panel yn gallu cyfethol Aelodau.<br>• Dim yn cael ei lyffetheirio gan faterion cyfansoddiadol ac yn gallu gweithredu'n fwy hyblyg.<br>• Yn gallu galw tystion i mewn.<br>• Byddai angen sefydlu cylch gorchwyl y Panel.<br>• Tystiolaeth i ddangos bod panelau wedi bod yn fwy llwyddiannus na strwythurau eraill yn cryfhau atebolrwydd BGLlau. | Gwendidau<br>• Oedi gyda delio ag argymhelliad(ion) y Panel pe na bai aelodau'r panel yn gyfforddus o ran adrodd argymhellion i Bwyllgorau Sgriwtini i'w cymeradwyo'n gyntaf cyn cael eu hanfon ymlaen i BGLl / Partner.<br>• Nifer lai o aelodau etholedig o bob awdurdod. |
| Cyfleon<br>• Byddai'r Panel yn datblygu rôl arbenigol o ran sgriwtineiddio'r BGLl.<br>• Byddai grŵp/panel llai yn arwain at amgylchedd mwy anffurfiol lle y byddai gwell sgriwtini felly yn esblygu gyda ffocws ar ganlyniadau yn hytrach na strwythurau.<br>• Byddai'n gallu ystyried sgriwtineiddio asiantaethau a chyrff y tu allan i ffiniau'r sir (pe bai hyn yn dod yn anghenraid yn y dyfodol).<br>• Gallai aelodau cyfetholedig helpu i leihau datgymalu sefydliadol ar draws ardaloedd blaenoriaeth BGLl.<br>• Gallai Aelodau Cyfetholedig helpu i atgyfnerthu gweithio ar y cyd. | Bygythiadau<br>• Dim digon o adnoddau wedi eu dyrannu gan y ddau Gyngor i gefnogi'r Panel.<br>• Dim digon o fewnbwn gan aelodau (awdurdod lleol neu gyfetholedig) i'r trefniadau sgriwtini.<br>• Gallai Pwyllgorau Sgriwtini fethu â chymeradwyo argymhellion y Panel pe bai hyn yn anghenraid.<br>• Y cylch gorchwyl heb fod yn glir a heb ei ddeall. |

| OPSIWN C : SEFYDLU PWYLLGOR SGRIWTINI BGLl GWYNEDD A MÔN AR Y CYD<br><br>**<u>DADANSODDIAD SWOT</u>** | |
|---|---|
| <u>Cryfderau</u><br>• Byddai'r Pwyllgor yn gallu gwneud argymhellion i bob Cyngor a phartneriaid. Mae cydweithredu ffurfiol yn bosibl o dan Adran 58 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac yn cael ei annog gan Lywodraeth Cymru. Wedi dweud hynny, rhaid cael cytundeb ffurfiol rhwng Cynghorau i gael Pwyllgor Sgriwtini ar y cyd. Mae'r gofynion wedi eu nodi yn y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini ar y Cyd) (Cymru) 2013 rhif 1050 (W-112).<br>• Dim dyblygu<br>• Ni fyddai raid i bartneriaid a swyddogion yn y BGLl ond adrodd yn ôl i un Pwyllgor.<br>• Byddai gan y Pwyllgor fwy o gapasiti gan mai ei unig ddyletswydd fyddai sgriwtineiddio'r BGLl.<br>• Byddai'r Pwyllgor yn gallu cyfethol aelodaeth. | <u>Gwendidau</u><br>• Trefniant ffurfiol mewn amgylchedd ffurfiol, dim yr amgylchedd gorau ar gyfer trefniadau sgriwtini da.<br>• Cost – adnoddau o ran amser ac arian.<br>• A fyddai yna ddigon o waith ar gyfer Pwyllgor ychwanegol.<br>• Cael ei lyffetheirio gan reoliadau cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â phwyllgorau sgriwtini ar y cyd ffurfiol a dim â'r gallu i fod mor hyblyg.<br>• Gwaith ychwanegol i'r ddau awdurdod. |
| <u>Cyfleon</u><br>• Byddai'r Pwyllgor yn datblygu rôl arbenigol yn sgriwtineiddio'r BGLl. | <u>Bygythiadau</u><br>• Dim digon o adnoddau wedi eu dyrannu gan y ddau Gyngor i gefnogi'r Pwyllgor Sgriwtini ar y cyd. |

# ATODIAD 2

**Aelodaeth**

Mae gwahanol opsiynau ar gael wrth ystyried aelodaeth y Panel Sgriwtini BGLl.  Ystyrir ei fod yn arfer orau, fodd bynnag, bod Panel o'r fath yn cynnwys cynrychiolwyr o asiantaethau partneriaeth.  Bydd cynrychiolwyr o'r partneriaid yn dod â gwahanol gyfraniad ac agwedd at y Bwrdd, yn cynnwys eu ffurf benodol hwy o atebolrwydd ac arbenigedd gwasanaeth a phroffesiynol unigryw. Yr amcan yw creu synergedd cryf trwy gyfuno ac adeiladu ar gryfderau a mynd i'r afael â rhwystrau lle y gallant fodoli.  Cynigir yr aelodaeth a ganlyn sy'n seiliedig ar arfer dda :-

- 3 Aelod Etholedig o Gyngor Gwynedd nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith
- 3 Aelod Etholedig o Gyngor Sir Ynys Môn nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith
- 1 wedi'i enwebu o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- 1 wedi'i enwebu o Heddlu Gogledd Cymru
- 1 wedi'i enwebu o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- 1 wedi'i enwebu o Mantell Gwynedd
- 1 wedi'i enwebu o Medrwn Môn.

**Trefniadau Llywodraethu ac Adrodd yn ôl**

Er mai un o brif gryfderau'r model hwn yw ei hyblygrwydd a'i fod yn rhydd o nifer o rwystrau cyfansoddiadol. Mae angen cwblhau gwaith pellach er mwyn datblygu'r trefniadau llywodraethu ac adrodd yn ôl yn llawn ar gyfer y Panel Sgriwtini arfaethedig.  Bydd y canllawiau isod yn sylfaen i'r trefniadau hyn :-

- Darparu her 'ffrind beirniadol' i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Sgriwtineiddio, gwerthuso a hyrwyddo yn weithredol welliant mewn gwaith a wneir yn unol â blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac nid rhai'r sefydliadau unigol sy'n rhan o'r Bwrdd ac sy'n cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Sgriwtineiddio, gwerthuso a bod yn weithredol yn hyrwyddo gwelliant o ran datblygu a gweithredu prosiectau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a osodwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Cyflwyno adroddiadau i'r partneriaid neu'r BGLl (fel bydd yn briodol) a gwneud argymhellion ar fesurau all wella effaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Adlewyrchu llais a phryderon dinasyddion a chymunedau yng Ngwynedd a Môn.

**Amlder y Cyfarfodydd**

Bwriedir y bydd cyfarfodydd o'r Panel yn cael eu galw yn 6 misol. Fodd bynnag, bydd angen cael rhywfaint o hyblygrwydd wrth i siwrnai drawsnewid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol esblygu e.e. efallai y bydd aelodau'r Panel yn dymuno ystyried materion ar sail ad-hoc.

| CYNGOR SIR YNYS MôN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AT:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **14 Ionawr, 2015** |
| **PWNC :** | **Fframwaith Adroddiadau Blynyddol y Cynghorau(ACRF)**<br>**Arolygu, Gwerthuso ac Adolygu Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol** |
| **AELODAU PORTFOLLIO( AU):** | **Cynghorydd Kenneth P Hughes** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Gwen Carrington, Cyfarwyddwraig Cymuned**<br>**Est 2706**<br>**Gwen Carrington@ynysmon.gov.uk** |

**1.0 ARGYMHELLION**

Gofynnir i aelodau dderbyn y llythyr, gyda cyfle i ofyn unrhyw eglurhad ychwanegol ar ei gynnwys.

**2.0 RHESWM**

Mae'r Fframwaith Adroddiad Blynyddol y Cynghorau yn un cytunedig ar draws Cymru er mwyn gwerthuso perfformiad mewn ffordd gyhoeddus a thryloyw wrth ymwneud a pherfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn Awdurdodau lleol.

Mae'r llythyr yn cydnabod y cynnydd sydd wedi ei wneud gan yr Awdurdod wrth nodi'r angen i barhau gyda'r ymroddiad i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol.

Cyfeirir gan AGGCC at y risgiau sy'n parhau.

Gwneir cyfeiriad penodol at y materion diffyg capasiti gydag awdurdod bychan yn cyfarch newidiadau sylweddol wrth drawsffurfio gofal cymdeithasol.

Gwelwyd parhad yng ngwelliant dangosyddion perfformiad yn y Gwasanaeth Plant wrth gydnabod y risg parhaus sy'n bodoli wrth ystyried lefel profiad y gweithlu a'r tîm rheoli.

Gwneir sylw gan AGGCC na chyfeiriwyd yn benodol yn Adroddiad y Cyfarwyddwr at y rhaglen cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Ebrill 2016). Mewn ymateb nodir bod y Cyngor yn ymwneud yn briodol a'r rhaglen genedlaethol sy'n cael ei ddatblygu. Yn ogystal, mae'r rhaglen waith a fabwysiadwyd gan y Gwasanaeth a'r Cyngor yn cyd-fynd a'r uchelgais ac egwyddorion o fewn i'r Ddeddf.

Nid oes rhaglen waith archwilio penodol ychwanegol wedi ei gynllunio ar gyfer Ynys Môn yn ystod y flwyddyn gyfredol mae cyfeiriad at brif feysydd diddordeb o ran cysylltiad â monitro. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd.

Mae'r llythyr yn cydnabod y pwysau ariannol a'r her sy'n wynebu'r Cyngor wrth ddiwallu'r cyfrifoldeb statudol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn gofyn am sylw parhaus ar ddarparu gwasanaethau saff ac addas wrth barhau i weithredu'r rhaglen trawsffurfio.

Mae'r llythyr a anfonwyd gan AGGCC yn dilyn yr Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn Hydref 2014. Mae'r sylwadau a gyflwynir gan AGGCC yn seiliedig ar yr adroddiad trosolwg, gridiau tystiolaeth a'r wybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn sgil archwiliadau a chysylltiad gyda'r Awdurdod. Llythyr annibynnol sydd yma sydd wedi ei wirio yn dilyn ystyriaeth o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws Cymru.

Fe ymgorfforwyd y gofynion a rhaglen gweithredu yn dilyn y llythyr o fewn i'r rhaglen Trawsffurfio'r Cyngor a chynllun busnes y Gwasanaethau unigol.

Wrth ystyried y negeseuon allweddol o fewn i'r llythyr mae'n hanfodol bod y cynnydd a dystiwyd yn parhau. Rhaid sicrhau sylw priodol ar ddarparu gwasanaethau addas a saff wrth barhau gyda'r rhaglen trawsnewid angenrheidiol ynghyd ac ymateb i'r gofynion ariannol anorfod sy'n wynebu'r Awdurdod.

**Awdur**: Gwen Carrington
**Teitl Swydd:** Cyfarwyddwraig Cymuned
**Dyddiad:** 22 Rhagfyr, 2014

| |
|---|
| ATODIAD 1-<br><br>Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14 - Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/report/141031angleseycy.pdf |

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14

## Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn



Hydref 2014

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2013–14

ISBN digidol 978 1 4734 2350 3
© Hawlfraint y Goron 2014
WG23296

## Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad Perfformiad 2013-2014

### Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Ynys Môn

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd cynnydd a'r meysydd i wella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2013-14.**

### Crynodeb

Mae Cyngor Sir Ynys Môn newydd ddechrau proses o weithredu rhaglen drawsnewid uchelgeisiol ar gyfer ei wasanaethau oedolion a phlant. Mae'r rhain yn rhaglenni newid a datblygu sylweddol i gyngor bach ac mae cyflymdra'r newid wedi'i lesteirio gan ddiffyg capasiti. Ar yr un pryd, mae cyngor newydd wedi'i ethol ac mae traean o'r aelodau'n rhai newydd eu penodi. Mae hyn hefyd wedi effeithio ar gyflymdra'r newid oherwydd roedd yn bwysig bod swyddogion yn buddsoddi amser mewn sicrhau bod aelodau etholedig yn deall y rhaglen drawsnewid yn iawn. Er y cyfyngiadau hyn, mae tystiolaeth o gynnydd cyson a chefnogaeth wleidyddol yn gefn i hynny, yn enwedig yng nghyswllt gwasanaethau ar gyfer oedolion hŷn. Mae perfformiad wedi gwella yn y meysydd craidd, yn bennaf yng nghyswllt Gwasanaethau Plant, er bod diffyg profiad cymharol y gweithlu mewn Gwasanaethau Plant yn golygu bod risgiau yn dal i fodoli a bod angen dal ati i fod yn wyliadwrus. Mewn gwasanaethau i oedolion, mae'r ffocws ar wasanaethau i bobl hŷn wedi arwain at ddiffyg ffocws ar wasanaethau i oedolion iau gan gynnwys pobl sydd ag anableddau corfforol, anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl.

Mae'r Cyngor wedi bod yn agored ynghylch beth a gyflawnodd hyd yma ac yn cydnabod y meysydd lle mae ar ei hôl hi. Erys llawer ar ôl i'w wneud; mae adroddiadau'r Penaethiaid Gwasanaeth yn nodi 50 o flaenoriaethau gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a 23 ar gyfer Gwasanaethau Plant yn 2014-15.

Er bod rhaglen drawsnewid y Cyngor yn unol â bwriadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), ychydig iawn y mae adroddiad y cyfarwyddwr yn sôn amdani'n benodol. Er bod adroddiadau mwy manwl y penaethiaid gwasanaeth yn nodi datblygiad yn y meysydd sy'n gysylltiedig â gofynion y Ddeddf, nid yw'r cysylltiadau hyn yn glir.  Felly nid yw'r adroddiad yn helpu dinasyddion i ddeall pa mor barod yw'r Cyngor i weithredu'r ddeddfwriaeth newydd. Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i ymateb i Mwy Na Geiriau.....fframwaith strategol Llywodraeth Cymru

ar gyfer gwasanaethau iaith Gymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol – ond rhaid iddo weithio'n agosach â'r gwasanaethau a gomisiynir i'w galluogi i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

Mae gan y Cyngor lwyfan cryf i adeiladu arno wrth integreiddio gwasanaethau, o gofio bod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu Model Môn dros nifer o flynyddoedd. Maent felly wedi gallu sefydlu Bwrdd Darparu Integredig mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd BCU sy'n cael ei ddefnyddio fel peilot ar gyfer y rhanbarth cyfan yng nghyd-destun Datganiad o Fwriad Gogledd Cymru ar Integreiddio i ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol integredig i bobl hŷn ag anghenion cymhleth. Mae gan y Cyngor gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y Bwrdd ond mae'n rhy fuan i werthuso ei effaith o ran gwella canlyniadau i ddinasyddion.

Strategaeth gyllideb tymor canolig y Cyngor yw gwario £22 miliwn yn llai dros bum mlynedd – sy'n cyfateb i 17%. Mae adroddiad y Cyfarwyddwr yn nodi sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2014-15 fel lleihad o 5.88% sy'n golygu bod angen arbedion o £1,1774,940. Mae'r adroddiad yn darparu cynigion eang ar gyfer sicrhau'r arbedion hyn, ond ni chyflwynir hwynt yn benodol ac nid oes cyswllt clir rhwng y cynllunio ariannol tymor canolig a'r strategaethau comisiynu.

**Yr ymateb i feysydd gwella'r llynedd**

| Maes gwella a nodwyd y llynedd | Cynnydd yn 2013-14 |
|---|---|
| Symud ymlaen gyda'r cynllun i foderneiddio gwasanaethau oedolion, rheoli a lliniaru'r risgiau cysylltiedig. | Cynnydd pendant gyda moderneiddio gwasanaethau i bobl hŷn ond cyfyngedig ar gyfer oedolion iau. |
| Gwerthuso effaith cyfeirio pobl ymlaen at wasanaethau yn y gymuned. | Mae nifer y bobl a gefnogir wedi gostwng yn sylweddol ond nid yw'r Cyngor wedi cynnal gwerthusiad ffurfiol o ganlyniadau hyn i bobl eto. |
| Mae angen i'r Cyngor weithredu ei adolygiad ac yna dechrau ailfodelu gwasanaethau plant. | Peth cynnydd, ond mae angen gwneud gwaith pellach.<br>Mae ffocws wedi bod a chynnydd wedi'i wneud gyda chael y pethau sylfaenol yn iawn o ran trefniadau cyswllt cyntaf ac ansawdd y cymorth a'r ymyriadau. Bydd hyn yn galw am fonitro agos i gadw'r momentwm. |
| Cynnydd yn nifer ac ystod y gofalwyr maeth sydd ar gael. | Peth cynnydd: Mae nifer y gofalwyr maeth wedi cynyddu ond ychydig iawn o ddewis lleoliadau sydd o hyd. |
| Perfformiad y gwasanaeth maethu gyda | Fel yr uchod, mae gwelliant wedi bod yn |

| | |
|---|---|
| recriwtio a chefnogi gofalwyr. | y maes hwn. |
| Sefydlu ystod dda o wasanaethau cymorth i blant a theuluoedd yn y gymuned. | Mae ffocws wedi bod ar wella mynediad a gwaith cymdeithasol rheng flaen. Mae’n parhau i fod yn faes sydd angen ei ddatblygu. |
| Gwella ystod y gwasanaethau i blant ag anableddau a dewisiadau lleoliad i blant sy’n derbyn gofal. | Mae hyn yn parhau i fod yn faes pwysig ar gyfer gwella. |
| Rhoi strategaeth glir o gynnal y gweithle plant yn ei lle. | Mae swyddi allweddol bellach wedi eu llenwi a defnyddir llawer llai o staff asiantaeth erbyn hyn. |
| Adolygu sut y cymhwysir y trothwyon DoLS | Nid yw hyn wedi’i wneud eto ac mae’r cyngor yn cydnabod bod hyn yn flaenoriaeth i dderbyn sylw brys. |
| Gwreiddio’r system sicrhau ansawdd. | Er bod y Cyngor wedi gwneud rhai gwelliannau yn y maes hwn, nid yw'r fframwaith sydd yn ei le wedi gwreiddio eto ac mae'n parhau i fod yn faes ar gyfer gwella. |
| Capasiti ar gyfer monitro contractau. | Mae’r Cyngor yn gweithio gyda’r Ganolfan Gomisiynu ranbarthol i fonitro peth o’r ddarpariaeth, ond mae’n parhau i fod yn faes ar gyfer datblygu parhaus. |
| Cynllunio ariannol clir sy'n nodi sut y bwriedir gwneud arbedion a sut y bwriedir lliniaru risgiau. | Peth cynnydd wedi’i wneud: Mae’r Cyngor wedi buddsoddi mewn system ariannol newydd i hwyluso cynllunio ariannol cliriach yn y dyfodol ond mae diffyg cynlluniau ariannol clir ar draws y gwasanaethau cymdeithasol ac mae hwn yn parhau i fod yn faes ar gyfer gwella. |
| Gweithredu rhaglenni newid yn ddiogel. | Gwelliant sylweddol: Mae’r Cyngor wedi buddsoddi mewn rhaglen ddatblygu ar gyfer ei reolwyr canol sydd wedi cynnwys rheoli newid. Mae wedi cydnabod bod angen gwneud hyn yn raddol ac wedi gohirio ei gweithredu mewn rhai achosion. |

| | |
|---|---|
| Datblygu craffu effeithiol gydag aelodau newydd. | Gwelliant sylweddol: Mae rhaglen gynefino i aelodau wedi cael ei datblygu a'i gweithredu. Mae Pencampwyr Gofalwyr a Phobl Hŷn wedi eu henwebu ac mae Aelodau allweddol yn rhan o'r Bwrdd Trawsnewid Oedolion Hŷn. |
| Datblygu'r defnydd a wneir o'r wefan. | Mae angen gwneud mwy o waith: Mae peth gwelliant wedi bod ond mae diffyg gwybodaeth o hyd ar gyfer ei lawrlwytho a dim cyfleusterau ar gyfer asesiadau lefel isel ar-lein. |

**Ymweliadau ac arolygiadau yn ystod y flwyddyn**

- Arolygiad Cenedlaethol o ddiogelu a chynllunio gofal i blant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal sy'n dangos ymddygiad agored i niwed neu ddiofal, yng Nghyngor Sir Ynys Môn ('arolygiad plant sy'n derbyn gofal').
- Adolygiad Comisiynu Cenedlaethol.
- Ymweliad gwasanaeth i Blas Crigyll i weld y datblygiadau ar gyfer pobl gyda dementia.

Cafodd CSSIW gyfarfodydd ag uwch-swyddogion y Cyngor drwy'r flwyddyn i adolygu perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol ac i drafod cynnydd yn y meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yng ngwerthusiad perfformiad y llynedd. Mae CSSIW hefyd wedi arolygu gwasanaethau rheoledig sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor a chan weithredwyr annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys adolygu'r Gwasanaeth Mabwysiadu a'r Gwasanaeth Maethu mewnol. Rhoddir manylion am y rhain mewn adroddiadau a gyhoeddwyd.

Yn ogystal, roedd adran gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn rhan o:

- adolygiad o gau cartref gofal Tŷ Gwyn gan y Comisiynydd Pobl Hŷn; a
- Arolygiad Cenedlaethol o Gyfiawnder Ieuenctid gan HMIP (YJ).

**Meysydd i'w hôl-ddilyn gan CSSIW y flwyddyn nesaf.**

Mae nifer o feysydd penodol ar gyfer gwella wedi eu nodi yng nghorff yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y Cyngor gyda'r rhain yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd gyda'r Cyngor dros y flwyddyn i ddod.

- Cynnydd ac effaith adolygu a moderneiddio gwasanaethau i oedolion iau, yn enwedig gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu.
- Cynnydd gyda, ac effaith y prosiect trawsnewid Oedolion Hŷn.
- Effaith y newidiadau gwasanaeth ar blant ag anableddau.

- Effaith datblygu'r Bwrdd Darparu Integredig.

## Perfformiad

### Llunio gwasanaethau

### Oedolion

Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ynghylch sut y mae'n bwriadu llunio gwasanaethau i oedolion hŷn. Er enghraifft, roedd adroddiad blynyddol y llynedd yn nodi 41 o fesurau datblygu, y rhan fwyaf yng nghyswllt oedolion hŷn. Cafodd chwech eu cwblhau, mae dau ar ei hôl hi ac mae 33 yn parhau i fod ar y gweill. Fodd bynnag nid yw'r mesurau gweithredu hyn wedi eu hategu gan asesiadau cynhwysfawr o angen ar draws pob gwasanaeth ac mae'r Cyngor yn cydnabod ei ddiffyg capasiti i wneud hyn. Penderfynodd y Cyngor gomisiynu ychydig o fapio anghenion i ategu ei raglen trawsnewid oedolion hŷn, drwy'r Bartneriaeth Cymorth Tai. Hefyd i ateb y diffyg hwn, mae'r Cyngor wedi dechrau gweithio'n agosach â'r trydydd sector i ddatblygu cysylltiadau cymunedol cryfach ac i gasglu adborth er mwyn gweithio'n gynhyrchiol ar y cyd gyda dinasyddion i fapio anghenion.

Ochr yn ochr â hyn mae diffyg dadansoddiad manwl o'r farchnad a dim cynlluniau trylwyr i nodi sut fydd y Cyngor yn datblygu'r farchnad i gefnogi ei gynlluniau trawsnewid. Mae angen gwelliannau sylweddol o hyd er mwyn canolbwyntio ar ganlyniadau'n hytrach na mewnbynnau a phrosesau. Mae comisiynu strategol wedi'i oleuo gan fapio anghenion ac mae datblygu'r farchnad yn parhau i fod yn faes pwysig ar gyfer gwella.

Mae diffyg cynlluniau comisiynu strategol clir ar draws y gwasanaethau cymdeithasol yn ei gwneud yn anodd i'r Cyngor gysoni ei gynlluniau ariannol tymor canolig. Mae cynnydd wedi'i wneud gyda deall costau uned gofal cartref yn well gan arwain at osod pris uned ar gyfer darparwyr annibynnol fel y gellir datblygu'r farchnad yn y dyfodol. Ar y cyfan, roedd cyllideb 2013-14 wedi'i gorwario ond roedd y gyllideb oedolion hŷn wedi'i thanwario gyda'r Cyngor yn priodoli hyn i'w fwriad strategol i symud i ffwrdd o ofal preswyl.
Gohiriwyd y bwriad i adolygu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu yn 2013-14 ac ychydig iawn y mae'r rhaglen drawsnewid yn sôn am anghenion pobl ag anghenion iechyd meddwl neu bobl ag anableddau corfforol neu nam ar eu synhwyrau.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda â'i bartneriaid a'i randdeiliaid allweddol. Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) mae wedi sefydlu bwrdd darparu integredig a hwn fydd y cyntaf o'i fath yn y rhanbarth. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n dda â'i bartneriaid ar ei raglen oedolion hŷn, gan ymgysylltu â chymunedau lleol a'r trydydd sector; er enghraifft, mae'r cyfarwyddwr wedi cwrdd â chynghorau Tref a Chymuned fel rhan o ymgynghori ar ei raglen moderneiddio

gwasanaethau i oedolion hŷn. Mae hefyd wedi dechrau ailgynnau ei gysylltiadau â darparwyr annibynnol.

## Plant

Mae'r Cyngor wedi parhau i ganolbwyntio ar wella ei swyddogaethau craidd o ran asesu a diogelu plant a phobl ifanc ac wedi cydgrynhoi ei berfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae tystiolaeth fod y strategaeth hon yn creu sylfaen gryfach i adeiladu newid arni, ond ychydig iawn o gapasiti sydd ar ôl i ail-lunio gwasanaethau. Mae gan y Cyngor weledigaeth o ran y math o wasanaethau plant y mae eisiau eu gweld yn y dyfodol, gyda ffocws ar ymyriadau cynhyrchiol gyda phlant a theuluoedd i sicrhau canlyniadau gwell a llai seiliedig ar brosesau. Fodd bynnag, er bod strategaeth gomisiynu ar gyfer gwasanaethau plant wedi'i datblygu nid yw eto wedi'i gweithredu'n llawn.

Y llynedd, roedd adroddiad y cyfarwyddwr yn nodi 22 o fesurau blaenoriaeth i wella gwasanaethau plant, o'r rhain mae chwech (27%) wedi eu cyflawni, mae 14 ar y gweill a dau ar ei hôl hi. Bydd nifer sylweddol o'r mesurau hyn yn cael eu cario drosodd i 2014-15. Er enghraifft, yn 2013-14 cafodd y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd ei ailfodelu ond ni fydd yn gwbl weithredol tan ddiwedd 2014. Mae angen gwreiddio'r gwasanaeth hwn, ynghyd â'r gwasanaeth i blant ag anableddau, a gwerthuso effaith y newidiadau wedyn.

Mae adnoddau ychwanegol wedi eu blaenoriaethu i ddatblygu modelau mwy cost-effeithiol, er enghraifft penodi swyddog marchnata a recriwtio ar gyfer gofal maeth. Roedd cyllideb lleoliadau allan o'r sir y gwasanaethau plant wedi'i gorwario, ond ar y cyfan roedd ychydig o danwariant yng nghyllideb y Gwasanaethau Plant.

### Meysydd cynnydd

- Cynnydd gyda gweithredu'r rhaglen drawsnewid ar gyfer oedolion hŷn.
- Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac aelodau etholedig, yng nghyswllt oedolion hŷn.
- Ailfodelu'r gwasanaethau cymorth i deuluoedd a phlant ag anableddau.
- Recriwtio gofalwyr maeth.

### Meysydd ar gyfer gwella

- Ar ôl ailfodelu, sicrhau bod y gwasanaeth cymorth i deuluoedd a'r gwasanaeth i blant ag anableddau'n gwbl weithredol a gwerthuso'r canlyniadau.
- Adolygu a thrawsnewid y gwasanaethau i oedolion iau.
- Cynyddu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i blant ac i bobl ifanc a'u teuluoedd a lleihau nifer y lleoliadau sydd y tu allan i'r ardal

- Dadansoddiad cryfach o'r galw a'r farchnad i oleuo cynllunio ariannol a chomisiynu.

## Cael help

### Oedolion

Yn ystod y flwyddyn, deliodd y Cyngor yn brydlon â 5,061 o atgyfeiriadau newydd ac mae newydd ddechrau datblygu ei un pwynt mynediad mewn partneriaeth â'r GIG i helpu dinasyddion i gael help.

Mae lleihad sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn nifer y bobl hŷn sy'n cael cymorth i fyw yn eu cartrefi ac mae'r Cyngor bellach yn sylweddol o dan y cyfartalog ar gyfer Cymru (54.4 o bobl hŷn am bob mil o'i gymharu â'r cyfartalog ar draws Cymru o 74.5). Dangosir hyn hefyd yn nadansoddiad y Cyngor o'i oriau gofal cartref gyda lleihad o 47% yn nifer y bobl hŷn a dderbyniodd gymorth cartref, i lawr o 1340 o bobl yn 2011-12 i 630 yn 2013-14 sy'n cyfateb i 99,440 yn llai o oriau. Mae lleihad hefyd wedi bod yn nifer y bobl a gefnogir i fyw mewn cartref gofal. Ni ellir priodoli'r lleihad sylweddol hwn mewn cymorth yn y gymuned i effaith mwy o ffocws ar ailalluogi'n unig, a gallai adlewyrchu'r ffaith bod y Cyngor yn defnyddio ei feini prawf cymhwyster; yn ôl y Cyngor mae hyn yn dystiolaeth o'u hymdrech bwriadol i gryfhau cefnogaeth cymunedol sy'n fwy priodol drwy atgyfeirio a chyfeirio pobl ymlaen at wasanaethau eraill yn y trydydd sector. Mae'r datblygiadau hyn y cyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac mae disgwyl y bydd pob cyngor yn canolbwyntio ar gefnogi llai o bobl, sydd ag anghenion sy'n fwy cymhleth. Serch hynny, mae'r lleihad hwn yn fwy o lawer nag mewn mannau eraill yng Nghymru a bydd angen i'r cyngor werthuso effaith hyn yn llawn er mwyn sicrhau nad ydy pobl yn cael eu gadael gydag anghenion heb eu diwallu.

Mae gwelliant wedi bod yn nifer y bobl sy'n derbyn adolygiad o'u gofal ac mae hyn yn uwch na'r cyfartalog ar draws Cymru. Mae gwelliant hefyd wedi bod yn nifer y gofalwyr sy'n cael cynnig asesiad o'u hanghenion.

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio â'r Cyngor Pobl Hŷn i dderbyn adborth ar ei daflenni. Mae rhai gwelliannau wedi bod i wefan y Cyngor ond nid da lle gellir gwell, gyda defnyddio asesiadau ar-lein er enghraifft.

### Plant

Mae strategaeth gyfathrebu ar gyfer gwasanaethau plant wedi'i datblygu ac angen ei gweithredu'n llawn erbyn hyn. Mae cynnydd wedi bod mewn gwella'r wybodaeth ar wefan y Cyngor, gan gynnwys defnyddio fideos YouTube.

Mae'r Cyngor wedi cydweithredu â'r cynghorau eraill yng Ngogledd Cymru i gomisiynu eiriolaeth ar sail ranbarthol. Yn ystod yr adolygiad LAC, lleisiwyd peth pryder fod cyfraddau mynediad yn isel ac nad yw'r gwasanaeth eiriolaeth yn ymateb cystal i angen lleol. Bydd angen i'r Cyngor fonitro hyn.

Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i sefydlogi ei dîm gwaith cymdeithasol ac wedi cyflawni adolygiad sylfaenol o'i drefniadau cyswllt cyntaf, gan gynnwys dadansoddi cyfraddau ail-atgyfeirio, gan arwain at berfformiad gwell. Er i fwy o bobl gysylltu, ac er iddo dderbyn mwy o atgyfeiriadau yn 2013-14 (cynnydd o 31% mewn atgyfeiriadau), mae lleihad siarp wedi bod yn y nifer sy'n symud ymlaen at ddyrannu (i lawr o 74.8% i 56.0% sy'n sylweddol islaw'r cyfartalog o 75.5% ar draws Cymru). Fel gyda gwasanaethau oedolion, dywed y Cyngor fod mwy o blant / pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu cyfeirio ymlaen at asiantaethau eraill gan gynnwys y 'Tîm o Amgylch y Teulu'. Bydd angen i'r Cyngor fonitro canlyniadau'r strategaeth hon i deuluoedd.

Mae lleihad bychan hefyd wedi bod yn nifer yr asesiadau cychwynnol a chraidd sy'n cael eu cyflawni. Mae'r lleihad mewn asesiadau ochr yn ochr â gwelliannau mewn prosesau, rheoli perfformiad a chynnydd mewn gweithlu a hyfforddiant wedi galluogi'r cyngor i wella ei berfformiad gyda chwblhau asesiadau cychwynnol o fewn saith niwrnod i 90.9%. Fodd bynnag, mae perfformiad gyda chwblhau asesiadau craidd cyn pen 35 diwrnod wedi dirywio o 80.5% i 71.7% ac mae hyn bellach o dan gyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r perfformiad gwell gyda chwblhau adolygiadau wedi'i gynnal, gyda 97.1% yn cael eu cyflawni o fewn yr amser. Nid yw'r Cyngor wedi gwireddu eto ei ddyhead i gael digon o gapasiti i ganolbwyntio ar ymyriadau gwaith cymdeithasol dwys sy'n hwyluso newid cynaliadwy i deuluoedd.

**Meysydd cynnydd**

- Datblygu un pwynt mynediad a chydleoli pawb yn Llangefni.
- Adolygu'r taflenni gwybodaeth i'r cyhoedd mewn partneriaeth â dinasyddion.
- Asesiadau o ofalwyr.
- Perfformiad gyda chwblhau adolygiadau yn y gwasanaethau plant.

**Meysydd ar gyfer gwella**

- Cryfhau'r trefniadau gyda gwasanaethau cymunedol i goladu a chasglu dyddiad mewn perthynas ag anghenion a mynediad.
- Cwblhau asesiadau craidd o fewn yr amser statudol.

**Y gwasanaethau a ddarperir**

**Oedolion**

Nid yw sicrhau ansawdd gwasanaethau wedi'i ddatblygu'n ddigonol gan y Cyngor. Roedd adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ac Adolygiad Annibynnol o Reoli a gomisiynwyd gan y Cyngor, y ddau wedi eu cyflawni yn 2013/14 ar ôl cau cartref, yn nodi bod angen monitro ansawdd yn fwy cyson a rhannu gwybodaeth ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Cyngor yn parhau i redeg chwe chartref gofal yn uniongyrchol ac mae'r gofal a ddarperir ynddynt yn foddhaol, ond mae CSSIW wedi lleisio pryder ynghylch y diffyg buddsoddiad yn amgylchedd y cartrefi hyn. Mae'r Cyngor wrthi'n ystyried ac ymgynghori ar gynlluniau ar gyfer y Cartrefi i'r dyfodol. Mae datblygu Plas Crigyll i ddarparu cartref gofal a chymorth cymunedol i bobl gyda dementia'n dystiolaeth o welliannau'n dilyn buddsoddi ac ail-ddylunio gwasanaeth yn unol ag amcanion rhaglen drawsnewid y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn mae'r Cyngor wedi gallu ail-lunio ei ddarpariaeth gofal cartref fewnol i ganolbwyntio ar ail-alluogi ac mae cyfran gynyddol o ofal cartref yn cael ei brynu gan y sector annibynnol. I gefnogi'r newid hwn, mae'r Cyngor wedi ymroi i ymgysylltu mwy â darparwyr annibynnol gan sefydlu fforwm rheolaidd; mae angen bellach iddo gryfhau ei ddulliau i fonitro ansawdd y ddarpariaeth hon.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi cynyddu ei ymdrechion i ymgysylltu â phobl hŷn sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, a chyda dinasyddion eraill sydd â budd yn y rhaglen drawsnewid. Mae hyn yn glir o'r ymgynghoriad ar y ddogfen bwriadau gwasanaeth a'r gynhadledd 'No Place Like Home' a gynhaliwyd ym mis Medi 2013. Canlyniad y gwaith hwn yw bod gan y Cyngor bellach gynllun cynhwysfawr ar gyfer gweddnewid ei wasanaethau i bobl hŷn, wedi'i oleuo gan farn cymunedau lleol.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymgynghori gyda gofalwyr ar ddatblygu ei strategaeth i ofalwyr a basiwyd yn ddiweddar gan aelodau etholedig. Yn eu hadborth, gofynnodd ofalwyr am fwy o wasanaethau ac yn enwedig am fwy o fynediad at seibiant byr; dywed y Cyngor ei fod yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â hyn.

Mewn partneriaeth â Thai Eryri, comisiynodd y Cyngor werthusiad annibynnol o'i gynllun gofal ychwanegol cyntaf, Penucheldre, gan dderbyn adroddiad yn Nhachwedd 2013. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y bobl oedd yn byw yn y cynllun ond casgliad yr adroddiad oedd bod oedi'r Cyngor gyda rhoi trefniadau gofal yn eu lle yn colli cyfle hanfodol i droi pobl ymaith o ofal preswyl i lety gofal ychwanegol fel bod nifer fawr o bobl yn byw yn y cynllun nad oes angen cymorth arnynt. Bydd yn flynyddoedd lawer cyn y gellir unioni'r anghydbwysedd hwn ac mae angen i'r Cyngor ddysgu o hyn wrth ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae ffocws y gwaith o wella gwasanaethau oedolion wedi bod ar oedolion hŷn. Er bod y Cyngor yn nodi ei fod yn bwriadu symud tuag at gymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion, ychydig iawn sydd wedi newid yn y maes hwn ac er bod nifer y bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn cynyddu'n raddol, mae'n dal i fod yn isel ar 44 o bobl. Gohiriwyd yr adolygiad o wasanaethau i bobl ag anabledd dysgu ac mae angen i'r Cyngor wneud mwy o gynnydd ar hyn.

O ran gwasanaethau oedolion, mae 80% o weithlu'r Cyngor yn siarad Cymraeg ac mae'r Cyngor yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg i oedolion sy'n gofyn amdano.

**Plant**

Mae nifer y Plant mewn Gofal wedi aros tua'r un fath â'r llynedd ac mae'n is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru. Mae sefydlogrwydd y lleoliadau'n dda ond mae diffyg dewis lleoliad o hyd i blant mewn gofal, fel bod yn rhaid lleoli plant (29%) allan o'r sir. Fodd bynnag, dywed y Cyngor fod 34% o'r lleoliadau gydag asiantaethau maethu annibynnol a 28% gyda'i ofalwyr maeth ei hun.(Mae hyn yn welliant ac yn adlewyrchu gwaith caled y Cyngor i gyrraedd ei darged o gynyddu nifer ei ofalwyr maeth).

Nid yw gwelliannau gwasanaethau plant y Cyngor wedi'u goleuo gan ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Cafwyd rhai achosion o wneud penderfyniadau a arweiniodd at gwynion ynghyd ag adolygiad ymarfer plant (i'w orffen yn 2014). Mae'r Cyngor yn cydnabod y broblem hon ac yn ei phriodoli i ddiffyg profiad cymharol ei reolwyr a'i weithwyr cymdeithasol rheng flaen. Fel ymateb i hyn, mae wedi penodi rheolwr sicrhau ansawdd gydag archwiliadau cyson yn cael eu gwneud. Mae atebolrwydd y rheolwyr tîm wedi cynyddu drwy raglen o gymell, hyfforddi a mentora ochr yn ochr â chyfarfodydd monitro perfformiad rheolaidd. Mae defnyddio offeryn risg seiliedig ar dystiolaeth hefyd yn cael ei wreiddio i sicrhau penderfyniadau mwy cyson.

Yn ystod y flwyddyn mae CSSIW wedi arolygu gwasanaethau mabwysiadu a maethu'r Cyngor gyda darganfyddiadau cadarnhaol mwy neu lai. Yn ogystal, cafodd y Cyngor ei arolygu fel rhan o'r arolygiad plant sy'n derbyn gofal. Yn ôl yr arolygiad hwn roedd diffyg tystiolaeth o leisiau plant / pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn adolygiadau.

Er y cynnydd da gyda sefydlogi'r gweithlu gwasanaethau plant, mae gwydnwch yn broblem o hyd oherwydd maint bach y timau sy'n golygu bod absenoldeb staff yn effeithio'n fuan iawn ar berfformiad a chanlyniadau. Er enghraifft, mae absenoldeb staff wedi effeithio ar berfformiad gyda chynllunio llwybrau i rai sy'n gadael gofal. Mae'r Gwasanaethau Plant wedi cael trafferth recriwtio staff cymwys a phrofiadol sy'n siarad Cymraeg serch hynny, mae 89% o'r staff gwasanaethau plant nawr yn siarad Cymraeg.

Mae gwasanaethau i blant ag anableddau wedi eu hailfodelu drwy integreiddio staff iechyd a gofal cymdeithasol a phenodi rheolwr gwasanaethau integredig a chael cytundeb partneriaeth ffurfiol yn ei le. Mae'n rhy fuan i werthuso effaith y datblygiad hwn ar blant a'u teuluoedd. Datblygiad newydd arall a ddechreuodd yn 2013-14 yw prosiect Coedlys sy'n darparu tai a chymorth i bobl ifanc agored i niwed gan gynnwys pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion hefyd yn faes ar gyfer gwella ac mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y trefniadau uwch-reolwyr newydd yn hwyluso hyn ynghyd â chreu rôl cydgysylltydd pontio ddynodedig.

Cafwyd lleihad yn nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y gwasanaethau oedolion a mymryn o gynnydd yn y cwynion i'r gwasanaethau plant. Ni roddwyd ymateb i 42% o fewn yr amser statudol ac roedd cynnydd (o 6 i 11) yn nifer y cwynion a symudodd ymlaen at gam 2.

**Meysydd cynnydd**

- Monitro ansawdd ymarfer rheng flaen yn y gwasanaethau plant.
- Ymgynghori gyda chymunedau.
- Recriwtio gofalwyr maeth.

**Meysydd ar gyfer gwella**

- Monitro ansawdd.
- Datblygu gwasanaethau i oedolion iau.
- Dewis o leoliad i blant sy'n derbyn gofal.
- Sefydlu ystod dda o wasanaethau cymorth i blant a theuluoedd yn y gymuned.
- Pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.

**Yr effaith ar fywydau pobl**

**Oedolion**

Comisiynodd y Cyngor adolygiad annibynnol o'i drefniadau diogel ac, yn ôl yr adroddiad, roedd tystiolaeth o weithio'n dda mewn partneriaeth. Mae cynnydd wedi bod gyda sefydlu Bwrdd Diogelu Oedolion Ar y Cyd gyda Gwynedd yn barod i ymateb i'r disgwyliadau a gyflwynir gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles; mae'r Cyngor hefyd wedi cyfrannu at waith rhanbarthol ar ddiogelu. Fodd bynnag, er bod nifer yr atgyfeiriadau diogelu oedolion a gwblhawyd yr isaf ers tair blynedd (90) mae dirywiad wedi bod mewn perfformiad o ran y ganran o atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd lle cafodd y risg ei rheoli. Mae'r perfformiad hwn o dan y cyfartalog Cymru gyfan ac ymhell o dan darged y Cyngor ei hun. Nid oes gan y Cyngor ei bolisi na'i weithdrefnau ei hun ar gyfer delio â

cheisiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid ac erys nifer y ceisiadau'n isel iawn. Mae gan y Cyngor gynlluniau i wneud pennaeth y gwasanaethau plant yn gyfrifol am oruchwylio diogelu ar draws y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r Cyngor yn parhau i wella ei ffocws ar hyrwyddo annibyniaeth. Y llynedd cefnogodd 30 yn llai o bobl mewn cartrefi gofal, ail-lansiodd ei wasanaeth ailalluogi gan hefyd ail-ddarparu ei wasanaeth prydau cymunedol drwy gomisiynu'r gwasanaeth hwn gan gyflenwyr lleol; fodd bynnag mae'n aneglur a yw'r lleihad sylweddol yn nifer yr oedolion a gefnogir yn eu cartrefi eu hunain yn dystiolaeth fod y Cyngor yn canolbwyntio mwy ar hyrwyddo annibyniaeth. Yn 2013-14, derbyniodd 438 o bobl wasanaeth ailalluogi ac mae'r nifer yma wedi cynyddu'n gyson dros y tair blynedd ddiwethaf gyda 42% o bobl bellach nad oes angen cymorth parhaus arnynt. Fodd bynnag mae lleihad o 19% hefyd wedi bod rhwng 2011-12 a 2013-14 yn nifer y bobl sy'n derbyn cyfarpar. Ynghyd â hyn, mae'r Cyngor wedi derbyn adborth bod angen iddo ddarparu cyfarpar yn fwy prydlon i hwyluso rhyddhau pobl o'r ysbyty.

Mae'r model Model Môn lleol wedi parhau i gael ei ddatblygu i ddarparu cymorth iechyd a gofal cymdeithasol di-dor i bobl; mae'r model yn cael ei wella drwy ddefnyddio'r Gronfa Gofal Canolraddol.

**Plant**

Mae'r Cyngor yn parhau i berfformio'n well gyda 98.8% o'i benderfyniadau ar atgyfeirio'n cael eu gwneud o fewn 24 awr sy'n uwch na'r cyfartalog dros Gymru. Roedd llai o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yn 2013-14.

Mae sefydlogrwydd y lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal wedi gwella eto ond mae perfformiad o ran newid ysgol wedi dirywio. Mae'r Cyngor yn priodoli hyn i ddiffyg lleoliadau lleol. Bu hefyd ddirywiad yng nghyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, ond caiff ei gydnabod fod un person ifanc yn gallu effeithio ar y perfformiad hwn oherwydd y niferoedd isel o blant sy'n derbyn gofal.

Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, llwyddodd y Cyngor i gwblhau 90.5% o'i ymweliadau statudol ar amser; mae'r ymweliadau hyn yn rhan annatod o ddiogelu a hybu lles ac mae'r perfformiad hwn yn well na'r cyfartalog ar draws Cymru. Mae mynediad da at ofal iechyd sylfaenol sy'n adlewyrchu'n dda ar weithio mewn partneriaeth a rhianta corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi cefnogi naw o blant i gael dychwelyd at gyfrifoldeb eu rhieni neu i gael diddymu eu gorchymyn gofal.

Yn Ionawr 2014 daeth arolygiad Sgrinio Ansawdd Byr o waith Troseddwyr Ifanc, i asesu ansawdd ac effeithiolrwydd y gwaith achos, i'r casgliad nad oedd goruchwylio'r gwaith, yn enwedig diogelu plant a phobl ifanc, yn ddigon effeithiol.

Drwy weithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, mae gwelliannau wedi eu gwneud i'r wybodaeth sydd ar gael am y Bwrdd Lleol Diogelu Plant (LSCB), gan gynnwys gwybodaeth sydd ar gael ar wefan y LSCB. Fodd bynnag, nid yw'r LSCB yn cyflawni archwiliadau achos ac mae angen iddo wneud hyn i sicrhau ansawdd yr ymarfer.

Mae creu swydd y rheolwr sicrhau ansawdd gwasanaethau plant yn 2012 wedi arwain at weithredu fframwaith sicrhau ansawdd. Mae hyn wedi hoelio ffocws rheolwyr ar ddangosyddion perfformiad allweddol ond rhaid gwneud mwy i ganolbwyntio mwy ar faterion ansawdd a sicrhau bod rheolwyr rheng flaen yn cymryd meddiant uniongyrchol o broblemau ansawdd ymarfer. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried pa mor gymharol ddibrofiad yw'r timau.

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Gomisiynu Gogledd Cymru i ddatblygu fframwaith ansawdd ar gyfer lleoliadau plant a gomisiynwyd.

**Meysydd cynnydd**

- Rheoli perfformiad y gwasanaethau plant.
- Mwy o ffocws ar hyrwyddo annibyniaeth oedolion hŷn.

**Meysydd ar gyfer gwella**

- Datblygu fframwaith monitro ansawdd ar draws gwasanaethau oedolion a phlant.
- Codi ymwybyddiaeth a gwella ymarfer ar DoLS.

## Capasiti

**Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae sefydlogrwydd y gweithlu wedi gwella, gyda phenodiadau rheoli allweddol wedi eu gwneud yn y gwasanaethau oedolion a phlant ynghyd â defnyddio llai o staff asiantaeth. Mae'r gwasanaethau plant wedi llwyddo i gadw mwy o staff, i fyny o 88.4% i 91.3%.

Nid yw'r uned datblygu'r gweithlu o dan reolaeth uniongyrchol y gwasanaethau cymdeithasol mwyach ac mae bellach yn rhan o dîm corfforaethol ehangach. Mae adroddiad y pennaeth gwasanaeth yn nodi bod angen monitro'r newid hwn a pharhau i gynnal cysylltiadau agos. . Cynhaliwyd cyfres o sesiynau datblygu rheolwyr ar gyfer rheolwyr llinell gyntaf a rheolwyr canol, yn canolbwyntio ar ddatblygiad tîm a gwasanaeth. Mae gan 68% o'r gweithlu gofal cymdeithasol gymwysterau priodol.

Mae'r lleihad yn nifer y bobl sy'n cael eu cefnogi yn eu cartrefi, ynghyd â mwy o gymorth yn cael ei brynu o'r sector annibynnol, wedi arwain at ormodedd o oriau contract heb eu defnyddio gan y gwasanaeth mewnol. O ganlyniad bu'n rhaid ymgysylltu a negodi'n sylweddol gyda staff a'r undebau i annog staff i symud tuag at ffyrdd mwy hyblyg o weithio. Mae hefyd wedi cael effaith ar adnoddau ariannol.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn gwella, ond cyngor bach yw Ynys Môn ac mae ei ddiffyg capasiti'n effeithio ar ei allu i ddatblygu, monitro a sicrhau ansawdd ei wasanaethau. Cafodd y broblem hon ei hadnabod fel y risg fwyaf ar gofrestr risg y rhaglen trawsnewid gwasanaethau oedolion hŷn a gwelir tystiolaeth o effaith hyn yn yr oedi sylweddol gyda'i gynlluniau i ddatblygu gwasanaeth brocera.

Mae'r gwelliannau mwyaf wedi bod i wasanaethau plant lle cafwyd ffocws sylweddol ar fonitro ymarfer rheng flaen ond rhaid ymestyn y sylw hwn i wasanaethau oedolion a rhaid i'r ddwy adran ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Fodd bynnag, cafwyd nifer o gwynion ac ymchwiliadau dilynol gan y gwasanaethau plant sy'n adlewyrchu diffyg profiad y timau rheng flaen. Datblygwyd cynlluniau dros y 12 mis diwethaf i fynd i'r afael â diffyg adrodd yn rheolaidd ar berfformiad, gan gynnwys monitro'r gyllideb a gweithgareddau. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno system gyllid gorfforaethol newydd. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cyflwyno dau weithdy sialensau gwasanaeth pob chwe mis, wedi eu harwain gan y dirprwy Brif Weithredwr.

Mae monitro gwasanaethau wedi eu comisiynu'n dal i fod heb adnoddau digonol ac wedi'i dan-ddatblygu ac yn faes pwysig ar gyfer gwella. Fel cam tuag at hyn, mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun Monitro gan Gyd-Ddefnyddwyr gan recriwtio dinasyddion hŷn fel gwirfoddolwyr i roi barn annibynnol am ansawdd rhai o'r gwasanaethau i bobl hŷn.

Nid yw strategaeth rhianta corfforaethol y Cyngor wedi'i chymeradwyo eto a dylid rhoi blaenoriaeth i wneud hyn; fodd bynnag, mae'n gadarnhaol nodi bod yr ymweliad Laming cyntaf gan aelodau etholedig i dimau rheng flaen wedi digwydd.

**Meysydd cynnydd**

- Gweithdai rheoli newid ar gyfer rheolwyr.
- Timau gwasanaethau plant mwy sefydlog.
- Cynllun monitro gan gyd-ddefnyddwyr.

**Meysydd ar gyfer gwella**

- Monitro ansawdd y gwasanaethau a gomisiynir.
- Cymeradwyo a gweithredu'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol.
- Monitro perfformiad ar sail canlyniadau, yn enwedig gwasanaethau oedolion.

Cyfeiriad clir

Mae'r cyfarwyddwr yn nodi bod cymorth cryf i'r gwasanaethau cymdeithasol ar draws y Cyngor newydd ac mae tystiolaeth o welliannau sylweddol mewn arweinyddiaeth a chyfeiriad i bob swyddogaeth gwasanaeth cymdeithasol, wedi eu gyrru gan y Cyngor newydd. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno rhaglen gynefino ffurfiol i'r holl aelodau etholedig newydd a chafodd sesiynau datblygu anffurfiol eu darparu i aelodau'r pwyllgor Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. Penodwyd aelod-bencampwr dros ofalwyr ac oedolion hŷn ac mae deilydd y portffolio ac aelodau etholedig hefyd wedi cyfrannu at nifer o fyrddau rhaglen y gwasanaethau cymdeithasol a'i banel cwynion.

O ganlyniad i wella'r hyfforddiant a'r cymorth a roddir i aelodau, mae pwyllgorau craffu ac aelodau etholedig ar y byrddau rhaglenni gwaith wedi gallu herio swyddogion yn adeiladol. Fodd bynnag mae'r angen i ymgysylltu'n eang a chreu consensws wedi arafu cyflymdra'r newid. Er enghraifft, ni chafodd gynlluniau oedd yn rhan o adroddiad blynyddol y llynedd i ddatblygu llety ar gyfer oedolion hŷn eu cymeradwyo gan y Cyngor tan fis Gorffennaf 2014. Yn awr y mae'r Cyngor newydd wedi sefydlu ei hun, rhaid cyflymu'r broses drawsnewid ar draws y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol i'r cyfarwyddwr wrth sefydlu tîm newydd o uwch-reolwyr yn dilyn ailstrwythuro'r Cyngor; arweiniodd hyn at recriwtio pennaeth newydd ar gyfer gwasanaethau oedolion a ddechreuodd yn ei swydd ym mis Mai 2014. Mae effeithiolrwydd y trefniadau arwain newydd o ran gyrru gwelliannau yn rhywbeth y bydd angen i'r awdurdod a CSSIW ei fonitro dros y deuddeng mis nesaf.

Y Cyngor yw'r 5ed isaf ar draws Cymru o ran gwario fesul pen ar wasanaethau cymdeithasol. Bydd sut y mae'r Cyngor yn ymateb i'r wasgfa ar ei gyllid dros y ddwy flynedd nesaf yn hanfodol i wreiddio'r gwelliannau a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf ynghyd â pharhau i foderneiddio ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn sylweddol.

**Meysydd cynnydd**

- Cefnogaeth wleidyddol gref i drawsnewid gwasanaethau.
- Darparu rhaglen gynefino ar gyfer aelodau etholedig.

**Meysydd ar gyfer gwella**

- Cyflymu'r broses o drawsnewid gwasanaethau.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I :** | **Pwyllgor Partneriaethau ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **14 Ionawr 2015** |
| **PWNC :** | **Diogelu Corfforaethol (Plant)** |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | **Ken Hughes** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Huws, Pennaeth Gwasanaeth**<br>**01248 751811**<br>**AnwenMHughes@ynysmon.gov.uk** |

**1.0 <u>ARGYMHELLION</u>**

A1 - Bod y Pwyllgor Sgriwtini'n nodi'r trefniadau corfforaethol i weithredu ei Bolisi Diogelu

A2 - Bod y Pwyllgor Sgriwtini'n nodi casgliad yr hunanarfarniad a gyflwynwyd i'r Bwrdd Diogelu rhanbarthol a'r camau gweithredu arfaethedig.

A3 - Bod y Pwyllgor Sgriwtini bod Bwrdd Diogelu Corffoarethol wedi ei sefydlu.

A4 - Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn craffu,ar sail flynyddol trefniadau diogelu corfforaethol.

A5 - Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn nodi ein bod yn disgwyl am adroddiad terfynol gan Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau atebolrwydd a sicrwydd y Cyngor ar gyfer sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau diogelu wedi eu sefydlu ac y glyir wrthynt.

**2.0 <u>RHESYMAU</u>**

2.1 Rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal hunanarfarniad yn flynyddol o'i drefniadau diogelu plant, ac adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Mae Atodiad 1 yn cynnwys yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad yn nodi'r amcanion cytunedig, cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn a meysydd pellach sydd angen sylw. Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'n cyfraniad i'r cyd-destun amlasiantaethol ac i waith y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol, y Grŵp Cyflawni Lleol ac is-grwpiau rhanbarthol cysylltiol. Mae'r adroddiad yn nodi'r prif gyflawniadau a ganlyn a'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer y flwyddyn i ddod:-

2.2 Prif Gyflawniadau

Mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau gwelliannau yn ei Wasanaethau Plant ac yn ei wasanaethau addysg, ac y mae ar hyn o bryd yn symud i gyfnod o ddatblygu a gwella trefniadau diogelu yn fwy cyffredinol. Mae gan yr Awdurdod Lleol Fwrdd Diogelu Corfforaethol a'i rôl yw sicrhau bod dyletswyddau allweddol yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion bregus yn cael eu cyflawni'n ddigonol. Mae polisi'r Awdurdod Lleol ar ddiogelu a'r cynllun gweithredu diogelu cysylltiol wedi eu

mabwysiadu. Tra bo cynnydd gyda'r cynllun gweithredu wedi dioddef peth oedi yn erbyn y dyddiadau targed gwreiddiol, mae rhai camau allweddol wedi eu cyflawni:-

- Bu cynnydd mewn perthynas â threfniadau'r Cyngor ar gyfer Recriwtio Diogel ac y mae'r gwasanaeth AD wedi datblygu ac adolygu nifer o bolisïau recriwtio diogel allweddol ac wedi cynnwys gwiriadau rheolaidd ar gydymffurfiaeth GDG i ddechreuwyr newydd gyda'r Awdurdod Lleol.
- Mae polisi chwythu'r chwiban yn ei le i bob gweithiwr ac aelod etholedig
- Mae'r Polisi Cynefino Corfforaethol yn sicrhau bod pob aelod staff yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion.
- O ran monitro ymwybyddiaeth a chymhwysedd staff mewn perthynas â diogelu, mae log hyfforddi'r Cyngor yn dangos bod staff yn cymryd sesiynau hyfforddi diogelu penodol a bod y sesiwn gynefino gorfforaethol yn cynnwys amser ar ddiogelu
- Cyflwynwyd cysylltiad i Aelodau mewn 'ymweliadau rota' lle bo Aelodau'n ymweld â gweithleoedd ar draws Gwasanaethau Plant i gyfarfod â staff llinell flaen a chael gwell dealltwriaeth o sut y mae'r gwasanaeth yn gweithredu
- Darparwyd hyfforddiant i Benaethiaid Gwasanaeth, Deilyddion Portffolio a Deilyddion Portffolio Cysgodol, Aelodau Allweddol eraill a swyddogion diogelu dynodedig ym mhob gwasanaeth fel eu bod yn cael eu cefnogi i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu a'u bod yn atebol am eu cyfrifoldebau diogelu. Bydd hyfforddiant hefyd yn cael ei ddarparu i'r aelodau a swyddogion a fethodd fynychu'r sesiynau a ddarparwyd. Yn ystod 2015/16 fe gynlluniwyd bod pob Pennaeth Gwasanaeth yn derbyn cefnogaeth unigol i weithredu eu hamcanion diogelu.
- Yn ystod 2013/14 fe wnaethom welliannau i'n trefniadau ar gyfer rheoli honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol. Ar ein cais ni fe gomisiynodd y Bwrdd Diogelu Plant Lleol nifer o seminarau ar reoli honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol gydag ystod o weithwyr proffesiynol ac asiantaethau yn bresennol. Fe wnaeth archwiliad annibynnol a wnaed yn ystod y flwyddyn gadarnhau ein cynnydd.

Mewn ymateb i fwriad y Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol i leihau'r nifer o Fyrddau Diogelu Plant Lleol yng Nghymru fe gymerodd yr Awdurdod Lleol ran mewn sefydlu'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Rydym yn parhau i fod yn aelodau a chyfranwyr gweithredol i'r agenda ddiogelu ar lefel leol a rhanbarthol. Mae Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig ar droed ar hyn o bryd yng nghyswllt dau achos ym Môn. Bydd y gwersi a ddysgir o'r achosion hyn yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol.

Ym mis Tachwedd 2012, fe arweiniodd honiadau pellach o gam-drin plant hanesyddol at sefydlu Operation Pallial yng Ngogledd Cymru a hefyd adolygiad Macur. Rydym wedi bodloni ein hunain ein bod yn cydymffurfio ag argymhellion ymchwiliadau blaenorol a, gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru, rydym yn sicrhau bod gwasanaethau cefnogi a chwnsela priodol ar gael i ddioddefwyr sy'n dod ymlaen o ganlyniad i'r ymchwiliadau diweddar

Rydym wedi gweld gweithio mewn partneriaeth ar draws asiantaethau er mwyn datblygu'r gwaith diogelu ym Môn yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i edrych ar yr achos busnes dros sefydlu Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH) wedi'i gyd-leoli yn Ynys Môn i dderbyn ac i gynnal asesiad

risg o atgyfeiriadau ynglŷn â diogelu plant, cam-drin plant yn rhywiol, trais yn y cartref ac oedolion bregus. Byddai hyn yn caniatáu i wybodaeth berthnasol gael ei rhannu rhwng asiantaethau mewn ffordd amserol cyn penderfynu ar yr ymyrraeth sydd ei hangen gan y timau presennol o fewn asiantaethau. Rydym wedi gweithio'n llwyddiannus gyda Chyngor Gwynedd a phartneriaid i ddarparu'r gwasanaeth Teulu Integredig ar sail gydweithredol.

2.3 Blaenoriaethau i'r dyfodol

Mae nifer o drefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau'r sefydliad bod gwasanaethau'n cyflawni eu dyletswyddau diogelu – gwerthusiad blynyddol o bob ysgol sy'n defnyddio cerdyn adrodd diogelu safonol ac ar lefel Gwasanaethau Plant byddir yn adrodd ar ddangosyddion perfformiad statudol. Mae angen i hyn gael ei ledaenu ar sail gorfforaethol. Felly, ar gyfer 2015/16, bydd pob pennaeth gwasanaeth yn gosod amcanion a mesurau diogelu ac ynghyd â hyn fe sefydlir Cerdyn Sgorio Diogelu Corfforaethol. Bydd cyflawni amcanion y Polisi a'r Cynllun Gweithredu Diogelu yn helpu i gyflwyno sgriwtini mwy effeithiol o faterion diogelu. Bydd diogelu wedi ei ymwreiddio o fewn proses gosod amcanion pob gwasanaeth, o fewn eu cynllunio busnes a'u trefniadau rheoli risg.

Bydd Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu) yn cael ei benodi gyda'r dasg o greu ac o adolygu cynllun gwaith corfforaethol a gyrru cyflawniadau yn erbyn yr amserlenni newydd a sefydlu'r Gwasanaeth Diogelu Pobl gan ddwyn at ei gilydd y Swyddogion Annibynnol ar gyfer Diogelu o fewn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion.

Mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu datblygu ei Fframwaith Hyfforddiant Diogelwch erbyn 2015/16. Bu ein strategaeth yn un o sicrhau bod Aelodau ac Uwch Swyddogion Allweddol, a Swyddogion Diogelu dynodedig yn derbyn lefel gyson o hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu. Bydd y rhaglen hyfforddiant diogelwch yn cael ei chwblhau a'i chymhwyso ar draws y Cyngor a byddwn yn monitro'r presenoldeb yn llawn.

Awdur: Anwen Huws

Teitl Swydd: Pennaeth Gwasanaeth

Dyddiad: 05.01.15

Atodiad 1

| ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER BWRDD DIOGELU PLANT GOGLEDD CYMRU | |
|---|---|
| **ASIANTAETH / MAES GWASANAETH:** | **Cyngor Sir Ynys Môn** |
| **AELOD O'R BWRDD:** | **Anwen Huws, Pennaeth Gwasanaeth ar ran CSYM** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Anwen Huws, Pennaeth Gwasanaeth ar ran CSYM** |
| **DYDDIAD CYFARFOD Y BWRDD:** | |

**Dylid cynnwys atodiadau ac ynddynt ystadegau a thystiolaeth berthnasol lle mae hynny'n bosib.**

| 1 | CRYNODEB / MATERION ER SYLW BDPGC |
|---|---|
| 1.1 | **Beth oedd y blaenoriaethau allweddol yn y maes diogelu plant ar gyfer y flwyddyn gyfredol a pham maent wedi eu pennu fel blaenoriaethau?**<br><br>• Yn yr Awdurdod Lleol – gweithredu'r polisi Diogelu i sicrhau y diogelir pobl sydd mewn perygl o gael eu niweidio neu eu hesgeuluso a chodi ymwybyddiaeth bod diogelu yn fusnes i bawb. Sefydlu Cynllun Gweithredu i'w fonitro gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol.<br>• Ystyried opsiynau ar gyfer gwell cydweithio rhanbarthol trwy'r BLIDP Rhanbarthol.<br>• Sefydlu systemau er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth pryd bynnag y mae modd gwneud hynny a'u bod yn cael cymorth a diogelwch amserol sy'n cydymffurfio gyda Pholisïau Cenedlaethol, Canllawiau Statudol a Rheoliadau.<br>• Gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli pryderon ynghylch diogelwch plant gydag anableddau.<br>• Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd a phartneriaid i ddarparu'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd ar sail gydweithredol.<br>• Ymateb i oblygiadau'r adolygiad cyfredol o'r Penaethiaid Gwasanaeth yn yr Awdurdod Lleol ar gyfer rheoli'r swyddogaeth ddiogelu. |
| 1.2 | **Meysydd cynnydd/cyflawniadau allweddol mewn perthynas â'r blaenoriaethau diogelu plant (a blaenoriaethau eraill all fod wedi dod i'r wyneb yn ystod y flwyddyn) gyda thystiolaeth o well canlyniadau**<br><br>**Diogelu Corfforaethol**<br>Yn ystod 13/14, dygwyd y cyfrifoldeb am ddiogelu plant ac oedolion dan un pennaeth gwasanaeth yn yr awdurdod lleol. Y bwriad yw sefydlu Gwasanaeth Diogelu Pobl. Cynlluniwyd y byddai'r gwasanaeth hwn yn weithredol erbyn Medi 2014. Ni lwyddwyd i wneud hynny oherwydd yr angen i gwblhau proses ailstrwythuro o fewn y gwasanaethau cymdeithasol. Mae gennym Bolisi Diogelu a Chynllun Gweithredu Corfforaethol fel Cyngor i sicrhau bod y polisi Diogelu Corfforaethol yn cael ei weithredu'n effeithiol ac yn gyson ledled yr Awdurdod Lleol. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi sicrhau:- |

| 1 | CRYNODEB / MATERION ER SYLW BDPGC |
|---|---|
| | ✓ Bod polisi chwythu'r chwiban a pholisi recriwtio diogel ac effeithiol wedi eu sefydlu ar gyfer yr holl weithwyr ac aelodau etholedig.<br>✓ Mae'r Polisi Cynefino Corfforaethol yn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion.<br>✓ Comisiynwyd hyfforddiant ar gyfer pob Pennaeth Gwasanaeth, Aelodau Portffolio ac Aelodau Portffolio Cysgodol, Aelodau Allweddol eraill a swyddogion diogelwch dynodedig ym mhob gwasanaeth er mwyn eu cynorthwyo i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu ac fel eu bod yn atebol am eu cyfrifoldebau diogelu.<br>✓ Cyflwynwyd trefniadau i aelodau fod ar 'rota' o ymweliadau â lleoedd gweithio ar draws y Gwasanaethau Plant fel y gallant gyfarfod staff rheng flaen a chael gwell dealltwriaeth o sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu.<br><br>Sefydlir Bwrdd Diogelu, a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor, erbyn Mawrth 2015 a bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn cynnwys blaenoriaethau diogelu yn eu Hamcanion Blynyddol. Rydym wedi sefydlu tri maes allweddol i ganolbwyntio arnynt:-<br><br>▪ Gweithlu Diogel.<br>▪ Strategaeth Hyfforddiant.<br>▪ Ataliaeth Gorfforaethol.<br><br>Unwaith y bydd y Rheolydd Gwasanaeth (Diogelu ac Ansawdd) wedi ei gymeradwyo / chymeradwyo rydym yn disgwyl y bydd cynnydd yn erbyn ein cynllun gweithredu yn cyflymu. Rydym yn disgwyl am adroddiad terfynol gan Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau atebolrwydd a sicrwydd y Cyngor ar gyfer sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu wedi eu sefydlu ac y glynir wrthynt.<br><br>Mae nifer o bolisïau perthnasol wedi eu cymeradwyo, neu wrthi'n cael eu cymeradwyo, neu wedi cael eu diwygio yn ystod y cyfnod adrodd:-<br><br>• Polisi Recriwtio Diogel.<br>• Camdriniaeth Ddomestig, Trais Yn Erbyn Merched a Thrais Rywiol.<br>• Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (diwygiedig).<br>• Polisi Recriwtio a Dethol (diwygiedig) gan gynnwys canllawiau ar gwblhau geirda.<br>• Polisi Diogelu Plant – Dysgu Gydol Oes.<br>• Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer Ysgolion.<br>• Polisi Camdriniaeth Ddomestig - Gwasanaethau Tai.<br><br>**Diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant y gofelir amdanynt a gadawyr gofal sy'n dangos ymddygiad bregus neu ymddygiad sy'n peri risg, o fewn Cyngor Sir Ynys Môn**<br>Cynhaliodd AGGCC arolygiad o drefniadau diogelu a chynlluniau gofal ar gyfer plant y gofelir amdanynt a gadawyr gofal sy'n dangos ymddygiad bregus neu ymddygiad sy'n peri risg, o fewn Cyngor Sir Ynys Môn. Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau thematig, gan ganolbwyntio ar waith a wnaed gyda phlant dros 11 oed sy'n derbyn gofal a gadawyr gofal a nodwyd fel unigolion bregus a/neu unigolion sy'n arddangos ymddygiad sy'n peri risg. Rhoddodd yr arolygiad sylw hefyd i ba |

| 1 | CRYNODEB / MATERION ER SYLW BDPGC |
|---|---|
| | raddau yr oedd trefniadau rhiantu, rheolaeth a phartneriaeth corfforaethol yn hyrwyddo gwell canlyniadau ar gyfer plant y gofelir amdanynt a gadawyr gofal.<br><br>Y meysydd yr ystyriwyd eu bod yn gadarnhaol mewn perthynas â Diogelu oedd:-<br><br>▪ Roedd y Gwasanaethau Plant yn cael eu cydnabod fel blaenoriaeth gorfforaethol.<br>▪ Roedd y Bwrdd Diogelu Plant newydd gychwyn ar broses i symud i ôl troed rhanbarthol.<br>▪ ‘Roedd sefydlogi’r gweithlu ar gyfer y gwasanaethau plant wedi bod yn flaenoriaeth i’r awdurdod dros nifer o flynyddoedd. Disgrifiwyd y gweithlu gwaith cymdeithasol fel un sefydlog ond bod angen iddo ennill mwy o brofiad.<br>▪ Roedd dealltwriaeth o’r cyfeiriadau a’r broses rhannu gwybodaeth rhwng swyddogion proffesiynol ac roedd perthnasau gweithredol rhwng staff o gymorth i gefnogi cyfathrebu. Roedd gan weithwyr cymdeithasol a’u rheolwyr dealltwriaeth o’r bobl ifanc y roeddent yn gweithio gyda nhw, gan gynnwys eu breguster a’u hymddygiadau sy’n peri risg.<br>▪ Roedd yr awdurdod wedi cyflwyno Model Risg i roi fframwaith asesu risg clir ar gyfer staff. Roedd y gyfres hon o becynnau yn cynnwys dull o sgrinio achosion fel mater o drefn er mwyn siapio’r broses gwneud penderfyniadau ynghyd â dull strwythuredig ar gyfer asesu risg a niwed sylweddol yn fanwl.<br>▪ Roedd gan staff fynediad i bolisïau allweddol, ac roedd systemau gwybodaeth yn bodoli er mwyn monitro cydymffurfiaeth gyda threfniadau statudol ar gyfer diogelu plant. Roedd yr holl weithwyr yn deall bod diogelu yn flaenoriaeth ac roedd ymwybyddiaeth uwch o freguster plant sy’n derbyn gofal a gadawyr gofal. Roedd prosesau diogelu plant yn cael eu defnyddio i reoli risg ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc.<br>▪ Roedd Bwrdd Diogelu Plant Gwynedd / Ynys Môn wedi gwneud gwaith ar faterion cam-fanteisio’n rhywiol ar blant, plant sydd ar goll ac sy’n cymryd rhan mewn ymddygiad sy’n rhywiol niweidiol. Roedd y trefniadau rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru mewn perthynas â’r materion hyn wedi eu cryfhau.<br>▪ Roedd staff y Gwasanaethau Plant hefyd wedi arwain gwaith ar wella ymwybyddiaeth o arwyddion bod plant yn cael eu masnachu.<br>▪ Roedd yr awdurdod wrthi’n ail-gyflunio ei wasanaeth ac yn creu tîm Diogelu a Sicrhau Ansawdd gan gynnwys cydlynydd diogelu plant, swyddog sicrhau ansawdd a’r swyddog adolygu annibynnol.<br><br>**Perfformiad mewn perthynas â systemau a phrosesau allweddol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag niwed**<br>Mae’r Awdurdod Lleol wedi cynnal ac atgyfnerthu ei berfformiad mewn perthynas â Dangosyddion Perfformio allweddol - fel y gwelir yn y meysydd isod:-<br><br>▪ Mae gan bob plentyn sydd hefo cynllun diogelu weithiwr cymdeithasol dynodedig.<br>▪ Gwelliant yn ein ffigyrau mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd grŵp craidd yn dilyn ymlaen o’r gynhadledd gychwynnol ar gyfer diogelu plant. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd 91.46% o’r cyfarfodydd gofynnol o fewn yr amserlen sy’n well na’r perfformiad yn 2012-13 (82.66%) a’r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan am yr un flwyddyn (88.50%). |

| 1 | CRYNODEB / MATERION ER SYLW BDPGC |
|---|---|

- Wedi cynnal ein ffocws allweddol ar weld y plant yn ystod eu hasesiadau. Yn ystod 2013/14, roedd y ganran o asesiadau cychwynnol a wnaed lle'r oedd tystiolaeth bod plentyn wedi cael ei weld gan weithiwr cymdeithasol yn 91.63%, sydd eto yn well na'r perfformiad yn 2012-13 (89.91%) a'r cyfartaledd trwy Gymru gyfan am yr un flwyddyn (75.40%).
- Wedi cynnal perfformiad sy'n rhagori ar y cyfartaledd trwy Gymru (yn seiliedig ar ddata 2012-13) mewn perthynas ag amseroldeb cynnal cynadleddau diogelu plant. Yn ystod 2013/14, cynhaliwyd 92.66% o'r Cynadleddau Diogelu Plant Cychwynnol o fewn yr amserlen, o gymharu â chyfartaledd o 87.40% trwy Gymru. Yn ystod yr un flwyddyn cynhaliwyd 98.49% o'r Cynadleddau Adolygu Diogelu Plant o fewn yr amserlenni o gymharu â 96.10% ar gyfartaledd trwy Gymru.
- Gwelliannau i'r Gwasanaethau Arbenigol Plant (GAP) i wella'r broses rheoli achosion i sicrhau gwell aliniad gyda'r Fframwaith ar gyfer Asesu.

O ran effeithiolrwydd ein cynlluniau diogelu plant, un ffordd o fesur hynny ydi a yw enwau'r plant yn cael eu hailgofrestru o fewn cyfnodau penodol. Rydym yn parhau i wneud yn dda yn y maes hwn - dim ond 4 o blant a ail-gofrestrwyd o fewn 12 mis ac 1 arall o fewn dwy flynedd. Ystyriaeth arall o ran effeithiolrwydd ein cynlluniau diogelu plant yw am ba hyd y mae enwau'r plant yn aros ar y gofrestr. Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus ac mae'r risg i'r plant yn gostwng o fewn 6 mis.

| | 2013/14 |
|---|---|
| Llai na 6 mis | 43 |
| Rhwng 6 – 12 mis | 14 |
| Rhwng 12 mis a 24 mis | 12 |
| Dros 2 flynedd | 2 |

**Gwelliannau trwy sicrhau ansawdd**

Mae archwiliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn yn arwain at wella arferion. Er enghraifft, nododd archwiliadau bod angen gwella asesiadau risg. O ganlyniad, rydym wedi bod yn treialu teclyn risg penodol o fewn y broses oruchwylio ac yn ein Hadroddiadau i Gynadleddau Diogelu Plant. Bwriad hyn yw sicrhau cysondeb o ran rheoli risg a defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer mesur, gwella, a / neu uwchgyfeirio risg. Mae'r Uned Datblygu'r Gweithlu wedi ymgorffori'r Model Risg o fewn eu rhaglen hyfforddiant ar gyfer staff a bydd yn cael ei gylchredeg i bob aelod o staff gan gynnwys cydweithwyr amlasiantaethol.

Yn ystod 2013/14, rydym wedi gwella ein trefniadau ar gyfer rheoli honiadau a wneir yn erbyn swyddogion proffesiynol. Ar ein cais, mae BLlDP wedi comisiynu nifer o seminarau ar reoli honiadau yn erbyn swyddogion proffesiynol. Mynychwyd y seminarau hyn gan ystod o swyddogion proffesiynol ac asiantaethau. Cadarnhawyd y cynnydd yr ydym wedi ei wneud mewn archwiliad annibynnol a wnaed yn ystod y flwyddyn.

**Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd**

Sefydlwyd y gwasanaeth hwn ym Môn a Gwynedd ac mae bellach yn weithredol.

**Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Masnachu Plant**

Mae'r Awdurdod Lleol yn arwain ar Grŵp Tasg Amlasiantaethol Gwynedd a Môn

| 1 | CRYNODEB / MATERION ER SYLW BDPGC |
|---|---|
| | ynghylch Plant sydd Ar Goll o'u Cartrefi / Plant y Camfanteisir yn Rhywiol arnynt. Ein nod yw atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a'u diogelu trwy ostwng nifer yr achosion o blant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll. Gwneir hyn trwy gyfrwng cynlluniau strategol a thrwy nodi arferion gweithio da y gellir eu rhannu ar draws fforwm amlasiantaethol. Cryfheir gwaith y grŵp hwn gan y Prosiect Ymarferwyr - sef prosiect 3 blynedd i godi ymwybyddiaeth ymysg swyddogion proffesiynol a phobl ifanc o bob cymuned o faterion Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB) ac i wella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc sydd yn y fath berygl. Arweinir y prosiect gan Heddlu Gogledd Cymru a Barnardos. Y manteision i'r plant a'r bobl ifanc yw eu bod yn destun cynlluniau priodol sydd wedi eu teilwra i gwrdd â'u hanghenion unigol. Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn yw Cadeirydd y Prosiect Atal Masnachu Pobl yng Ngogledd Cymru. Ar hyn o bryd rydym yn cydweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys Barnardos, ar atal masnachu plant, sy'n fater pwysig i Ynys Môn oherwydd bod gennym Borthladd Caergybi yn ein hardal.<br><br>Mae gwasanaeth plant ac addysg yr Awdurdod Lleol wedi dechrau defnyddio'r teclyn SERAF ac mae'n gweithio gyda Barnardos Cymru, i ddarparu<br>▪ Hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth<br>▪ Hyfforddiant i staff ar sut i ddefnyddio'r teclyn SERAF. Mae'r Adran Addysg wedi darparu pedair sesiwn hyfforddiant yn ystod tymor yr haf a gynigiwyd i'r gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau plant.<br><br>**Plant sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n rhywiol niweidiol**<br>Rydym wedi gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu'r dull o weithredu mewn perthynas â phlant sy'n ymddwyn mewn ffordd rhywiol niweidiol. Mae BLIDP Gwynedd ac Ynys Môn wedi mabwysiadu opsiwn o ddefnyddio'r model AIM o weithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol ac mae wedi cyllido hyfforddiant amlasiantaethol traws-sirol ar gyfer asiantaethau, er mwyn sicrhau dull cyson ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Sefydlwyd Fforwm Ymarferwyr amlasiantaethol i gynorthwyo i ddatblygu arferion staff yn y maes diogelu hwn. Collwyd sgiliau allweddol yn y maes oherwydd trosiant staff. |
| 1.3 | **Yr heriau a'r materion sy'n parhau i fod angen sylw o ran diogelu plant (gan gynnwys risgiau)**<br><br>• Er bod ymrwymiad clir i wella a thystiolaeth bod newidiadau'n cael eu gwneud, mae angen pennu capasiti os ydym am gyflymu'r cynydd. Mae adnodd wedi ei adnabod bellach.<br>• Y Broses Gynadleddau - Mae adroddiadau gan y Cydlynydd Diogelu Plant yn dweud bod rhaid i ni sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed yn gyson. Mae gwaith a chyfathrebu uniongyrchol gyda'r plant yn ganolog i'r broses honno ac mae'n rhaid datblygu mwy ar y gwasanaeth eiriolaeth ar gyfer y plant sy'n mynd trwy'r broses hon.Yn yr adolygiadau o Gynlluniau Diogelu Plant, mewn sesiynau Goruchwylio, Grwpiau Craidd a Chynadleddau Diogelu Plant, rhaid dangos bod cynnydd yn cael ei wneud gyda chynlluniau er mwyn sicrhau trefniadau diogelu a chynlluniau gofal amserol ar gyfer y plant.<br>• Er bod y defnydd o declynnau asesu risg wedi gwella yn sgil hyfforddiant a |

| 1 | CRYNODEB / MATERION ER SYLW BDPGC |
|---|---|
| | roddwyd i Weithwyr Cymdeithasol, mae angen i ni sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth o'r fframwaith risg a chysondeb o ran y dulliau gweithredu yn y gwasanaethau plant a'r bartneriaeth amlasiantaethol. Mae archwiliadau o arferion wedi dwyn sylw at nifer o welliannau y mae angen eu gwneud o ran gweithio amlasiantaethol:-<br><br>1) Gwell asesiad o'r gallu i riantu yn seiliedig ar hanes llawn y rhieni a ffocws clir ar risg.<br>2) Dylai Grwpiau Craidd ganolbwyntio ar ddarparu cynllun amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar sicrhau diogelwch ar gyfer y plentyn.<br>3) Ail-lansio'r Protocol ar gyfer Rheoli Gwahaniaethau Proffesiynol – mae hyn yn ymwneud â gwahaniaethau barn proffesiynol.<br>4) Adolygu cyd weithio rhyng asiantaethol mewn achosion o fabanod nad ydynt wedi eu geni.<br>5) Defnyddio Adran 20 Deddf Plant a throthwy rheoli niwed sylweddol,<br><br>• Gweithlu sydd yn gallu cyflawni eu dyletswyddau diogelu yn effeithiol – cefnogi staff a rheolwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc/oedolion bregus yn eu datblygiad proffesiynol parhaus drwy ddarparu hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n cyd-fynd â'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.<br>• Trefniadau contractyddol cadarn yn weithredol mewn achosion lle mae Cyngor Sir Ynys Môn yn comisiynu neu'n rheoleiddo gwaith gyda phlant a phobl ifanc / oedolion o sefydliadau / asiantaethau eraill. |
| 1.4 | **Materion diogelu plant i'w codi gyda BDPGC (e.e. lle y bydd efallai angen cefnogaeth, cyfarwyddyd neu weithredu gan BDPGC)**<br>• Mae staff yn treulio cryn dipyn o amser yn ymateb i gysylltiadau nad ydynt yn cwrdd â throthwyon ein gwasanaeth. Mae angen amlwg i weithio gyda swyddogion proffesiynol i ddod i gyd-ddealltwriaeth am y trothwyon ac i sicrhau fod yr holl asiantaethau'n cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau diogelu.<br>• Gwerthusiad o'r model risg a pherchenogaeth o'r model – er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar reoli risg ar sail amlasiantaethol.<br>• Nifer o nodweddion yn cael effaith ar y gallu i rianta. Ni fedr Gwasanaethau Cymdeithasol gomisiynu'r amrediad o wasanaethau y mae eu hangen i roi sylw i'r cyfan o'r problemau rhianta. Mae arwyddion sylweddol y bydd angen i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion a Chamddefnyddio Sylweddau gael mewnbwn arwyddocaol i achosion diogelu plant.<br>• Dylai'r BDPGC ystyried sefydlu Polisi Diogelu Deuol i arwain y penderfyniadau o ran plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd ar y gofrestr diogelu plant.<br>• BDPGC i adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli maethu preifat yn y ddau Awdurdod Lleol.<br>• Dylid rhoddi hyfforddiant ar effaith esgeulustod ac asesu esgeulustod i'r holl weithwyr a goruchwylwyr a chynnal sesiynau gloywi yn rheolaidd.<br>• Dylid darparu hyfforddiant ar gyfer y rhwydwaith amlasiantaethol a gweithwyr cymdeithasol yn benodol fel y gallant reoli achosion lle mae'r rhieni'n elyniaethus a datblygu gwell dealltwriaeth o rieni sy'n cymryd arnynt eu bod yn cydymffurfio. |

| 1 | CRYNODEB / MATERION ER SYLW BDPGC |
|---|---|
| 1.5 | **Unrhyw faterion o bwys mewn perthynas â diogelu plant neu i BDPGC, e.e. digwyddiadau difrifol, negeseuon o arolygon, ad-drefnu ac ati.**<br>Gweler 1.4 uchod |

| 2 | DIOGELU PLANT – TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT AC ATEBOLRWYDD:<br>Y modd y bu i'r sefydliad sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol o ran diogelu plant yn ystod y flwyddyn |
|---|---|
| 2.1 | **Rôl, swyddogaeth a strwythur diogelu plant yn y sefydliad**<br>Mae'r Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu ei bolisi Diogelu sy'n nodi mai'r gwasanaethau cymdeithasol yw'r asiantaeth sy'n arwain ar gyfer gwneud ymholiadau i honiadau/pryderon y gall plant ac oedolion bregus fod yn dioddef niwed sylweddol, ond fod pawb yn rhannu'r cyfrifoldeb ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus, waeth beth yw rôl yr unigolyn. Mae'r Awdurdod Lleol yn ymrwymo i lynu wrth weithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant.<br><br>Manylir ar Swyddogaethau a Chyfrifoldebau yn ein Polisi Diogelu. Y Prif Weithredwr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau y gweithredir ar bolisïau a gweithdrefnau effeithiol o ran diogelu plant ac oedolion bregus, am ddatblygu trefniadau llywodraethiant corfforaethol ac am gwrdd â'r holl ofynion statudol. Y Cyfarwyddwr Cymuned yw'r swyddog sy'n arwain yn y Cyngor ar Faterion Breguster ac mae'n aelod o BDPGC. Mae hi'n gyfrifol am sicrhau fod gan yr awdurdod y warchodaeth briodol i ddiogelu plant a phobl ifanc, oedolion a phobl hŷn fregus ac am adrodd ar lefel gorfforaethol ac i Gynghorwyr ar eu heffeithiolrwydd. Er bod cyfrifoldeb ar bob aelod o staff i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, y Cyfarwyddwr Cymuned yw'r uwch swyddog yn y Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb terfynol a diwahân am hyn.<br><br>Mae'r Gwasanaethau Plant yn gyfrifol am gynnal ymholiadau i honiadau/pryderon y gall plant ac oedolion bregus fod yn dioddef niwed sylweddol ac am gyflawni amryfal ddyletswyddau'r Awdurdod Lleol dan Ddeddf Plant 1989. Y 4 tîm gwaith maes sy'n cynnal yr ymholiadau hyn. Mae Swyddogion Diogelu dynodedig ym mhob cyfadran yn gyfrifol am:<br><br>▪ Fynychu hyfforddiant perthnasol ar gyfer swyddogion dynodedig<br>▪ Gweithredu fel ffynhonnell o gyngor ar faterion diogelu i staff arall yn y gyfadran<br>▪ Bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau diogelu Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan, y Gweithdrefnau ar gyfer Diogelu Oedolion Bregus a system Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer cadw cofnodiadau effeithiol.<br>▪ Sicrhau fod gweithdrefnau mewnol effeithiol ar gael i roi sylw i bryderon a dwyn asiantaethau cyfeirio i mewn i'r broses (e.e. Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Diogelu Oedolion Bregus).<br>▪ Sicrhau fod cofnodion yn cael eu cadw a'u bod yn ddiogel ac yn saff bob amser.<br>▪ Sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Polisi a'r Weithdrefn hon a monitro hynny ac adrodd yn rheolaidd i'w Tîm Rheoli a thrwy hynny i'r Cyfarwyddwr Cymuned a'r Aelodau. |

| 2 | **DIOGELU PLANT – TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT AC ATEBOLRWYDD: Y modd y bu i'r sefydliad sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol o ran diogelu plant yn ystod y flwyddyn** |
|---|---|
| | Rhaid i'r holl Benaethiaid Gwasanaeth sicrhau fod eu staff yn cael y gwiriadau angenrheidiol gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol a rhai'r GDG a'u bod yn cydymffurfio gyda'r Polisïau a'r Gweithdrefnau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Bregus. Rhaid i bob Pennaeth Gwasanaeth sefydlu trefniadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda gofynion y polisi hwn a chyda Pholisi Cofnodiadau Troseddol y Cyngor. Rhaid i bob Pennaeth Gwasanaeth sicrhau y cedwir cofnod o holl wiriadau'r Awdurdod Diogelu Annibynnol a'r GDG.<br><br>Bydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn sicrhau fod y dyletswyddau allweddol o ran Diogelu Plant ac oedolion bregus yn cael eu cyflawni'n ddigonol. Mae'r Tîm Rheoli ym mhob gwasanaeth yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau fod y gofynion statudol mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac oedolion bregus yn eu lle a bod staff yn glynu wrthynt. Mae hyn yn cynnwys ansawdd, cynnwys ac amlder yr hyfforddiant a ddarperir a chadw cofnod digonol o hyfforddiant staff. Bydd cyfrifoldebau'n cynnwys monitro'n ganolog ac adrodd ar gydymffurfiaeth gyda gofynion Diogelu er mwyn darparu sicrwydd angenrheidiol i uwch reolwyr, y Cyfarwyddwr Cymuned a'r Aelodau yn rheolaidd.<br><br>Mae'r holl Reolwyr Llinell a Chontractau yn gyfrifol am sicrhau fod y staff y maent yn gyfrifol amdanynt yn derbyn yr hyfforddiant y mae eu hangen yn unol â'u cyfrifoldebau. Mae canllawiau ar gael gan staff AD ynglŷn â'r aelodau o staff a ddylai gael hyfforddiant ac ar ba lefel.<br><br>Mae contractwyr, isgontractwyr neu sefydliadau eraill a gyllidir gan y Cyngor neu ar ei ran yn gyfrifol am gyflwyno ceisiadau i'r Awdurdod Diogelu Annibynnol Priodol a'r GDG ar gyfer gwiriadau ac am sicrhau fod eu staff yn cydymffurfio gyda'r Polisïau a'r Gweithdrefnau priodol sy'n ymwneud â Diogelu Plant ac Oedolion Bregus. Maent hefyd yn gyfrifol am roi gwybod i reolwyr perthnasol yn y Cyngor am unrhyw bryderon y dônt ar eu traws o ran diogelu..<br><br>Cynllun Gweithredu Diogelu<br>Bydd Cynllun Gweithredu blynyddol ar gyfer Diogelu'n cael ei sefydlu ac ynddo, amlinellir yn glir y camau a gymerir gan Gyngor Sir Ynys Môn a'r rheiny sy'n gweithredu ar ran y Cyngor er mwyn sicrhau y gweithredir yn llawn ar y polisi hwn. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol ochr yn ochr â'r adolygiad o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Adroddir ar hyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. |
| **2.2** | Y berthynas â BDPGC<br><br>Aelod<br>Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill; bydd yn cydymffurfio gyda phrotocolau a gweithdrefnau'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant a bydd yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw argymhellion sy'n ymwneud â gwella ei bolisïau a'i weithdrefnau diogelu. |

| 2 | DIOGELU PLANT – TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT AC ATEBOLRWYDD:<br>Y modd y bu i'r sefydliad sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol o ran diogelu plant yn ystod y flwyddyn |
|---|---|
| | |
| **2.3** | **Aelodaeth a phresenoldeb (gan gynnwys is-grwpiau)**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn aelod o'r BDPGC a'r Grwpiau Cyflawni Lleol – ac mae'n aelod neu'n gadeirydd ar nifer o is-grwpiau. Mae Swyddogion Awdurdodau Lleol wedi cymryd rhan mewn nifer o adolygiadau ymarfer, gan gyfrannu at ddysgu a gwella ar sail ranbarthol. |
| **2.4** | **Y berthynas â Bwrdd yr asiantaeth**<br><br>Aelod |
| **2.5** | **Adnoddau ariannol ac adnoddau eraill a roddwyd i gefnogi'r BDPGC**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi cefnogaeth ariannol ac adnoddau nad ydynt yn rhai ariannol tuag at waith y Bwrdd. |
| **2.6** | **Unrhyw faterion llywodraethiant / adnoddau a allai gael effaith ar y gallu i ddiogelu plant ac y mae angen eu dwyn at sylw'r BDPGC**<br><br>Dim |

| 3 | DIOGELU PLANT – GWEITHGAREDDAU MONITRO A GWERTHUSO / SICRHAU ANSAWDD |
|---|---|
| **3.1** | **Beth mae'r sefydliad wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn i fonitro a gwerthuso ei drefniadau diogelu plant?**<br><br>Mae gan y Cyngor Bolisi Diogelu a Chynllun Gweithredu Corfforaethol cysylltiedig er mwyn sicrhau fod y polisi Diogelu Corfforaethol yn cael ei weithredu'n effeithiol ac yn gyson ar draws yr Awdurdod Lleol. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys nifer o archwiliadau er mwyn rhai prawf ar gydymffurfiaeth yn erbyn y Polisi Diogelu. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi sicrhau:-<br><br>▪ Bod polisïau recriwtio diogel a chwythu'r chwiban yn eu lle ar gyfer yr holl weithwyr ac aelodau etholedig<br>▪ Bod cydymffurfiaeth o ran gwiriadau GDG i ddechreuwyr newydd yn cael ei siecio'n rheolaidd<br>▪ Mae'r Polisi Cynefino Corfforaethol yn sicrhau fod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion.<br>▪ Comisiynwyd hyfforddiant ar gyfer yr holl Benaethiaid Gwasanaeth, yr Aelodau Portffolio a'r Aelodau Portffolio Cysgodol, Aelodau Allweddol eraill a swyddogion diogelu dynodedig ym mhob gwasanaeth fel eu bod yn cael y gefnogaeth i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu a'u bod yn atebol am eu |

| 3 | DIOGELU PLANT – GWEITHGAREDDAU MONITRO A GWERTHUSO / SICRHAU ANSAWDD |
|---|---|
| | cyfrifoldebau diogelu.<br>▪ Cyflwynwyd ymgysylltiad aelodau gydag 'ymweliadau rota' lle mae Aelodau'n ymweld â gweithleoedd ar draws y Gwasanaethau Plant i gwrdd â staff rheng flaen a chael gwell dealltwriaeth o'r modd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu.<br>▪ Rydym wedi bodloni ein hunain ein bod yn cydymffurfio ag argymhellion ymchwiliadau blaenorol.<br>▪ Yn ystod 2013/14, rydym wedi gwella ein trefniadau ar gyfer delio gydag honiadau yn erbyn swyddogion proffesiynol. Ar ein cais ni, comisiynodd y BLlDP nifer o seminarau ar reoli honiadau yn erbyn swyddogion proffesiynol a mynychwyd y seminarau gan amrediad o swyddogion proffesiynol ac asiantaethau. Cynhaliwyd archwiliad annibynnol yn ystod y flwyddyn a chadarnhawyd ein cynnydd.<br><br>Byddai cyflawni amcanion y Polisi Diogelu a'r Cynllun Gweithredu o gymorth i sgriwtineiddio materion diogelu'n fwy effeithiol. Ochr yn ochr â hyn, byddir yn cyflwyno Cerdyn Sgorio ar gyfer Diogelu yn 2015/16.<br><br>Mae system Rheoli Perfformiad a Fframwaith Sicrhau Ansawdd cynhwysfawr ar gael yn y Gwasanaethau Plant. Mae targedau a chynlluniau gwasanaeth a busnes yn gyrru gwelliannau mewn perfformiad ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Mae swyddogion mewnol a phartïon allanol wedi bod yn cynnal archwiliadau'n rheolaidd yn y gwasanaeth. Mae'r rhain wedi cynnwys Archwiliadau Ymarfer Penodol, Archwiliadau Thematig wedi eu Cynllunio (a gynhaliwyd gan y tîm rheoli gwasanaethau plant), Adolygiadau Achos Penodol ac archwiliad Thematig, e.e. cyfarfodydd Strategaeth Rhan IV, Cynadleddau Amddiffyn Plant (CAP) Gwynedd a Môn gan bobl allanol. Daeth yn amlwg fod consensws o ran casgliadau'r cyngor a gafwyd yn fewnol ac yn allanol. |
| **3.2** | **Beth oedd y blaenoriaethau archwilio y cytunwyd arnynt am y flwyddyn o ran diogelu plant a pham cawsant eu nodi fel blaenoriaethau**<br>Mae archwilio yn cael eu gyrru gan y themâu sydd yn ein Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol. Rhoddwyd blaenoriaeth i thema Gweithlu Diogel yn ystod y flwyddyn oherwydd mae hynny'n angenrheidiol i sefydlu trefniadau diogelu cadarn. Yn y Gwasanaethau Plant, caiff gweithgareddau SA eu gyrru gan ein prosesau hunanasesu sy'n sail i Gynllun Cyflawni'r Gwasanaethau a'r Gofrestr Risg; ac er ein bod yn ceisio bod yn rhagweithiol, rydym hefyd â'r capasiti i fod yn ymatebol - fel bod modd i ni ymateb i faterion yn ymwneud ag ymarfer fel y maent yn codi. |

| 3 | DIOGELU PLANT – GWEITHGAREDDAU MONITRO A GWERTHUSO / SICRHAU ANSAWDD |
|---|---|
| 3.3 | **Rhowch grynodeb os gwelwch yn dda o'r gweithgareddau sicrwydd ansawdd yr ymgymerwyd â nhw yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â diogelu plant (gan gynnwys, er enghraifft, defnyddio data, casgliadau archwiliadau, cydraddoldeb/amrywiaeth, sylwadau defnyddwyr gwasanaeth, cwynion)**<br>Cynhaliwyd nifer o weithgareddau sicrwydd ansawdd ar lefel gorfforaethol a lefel y gwasanaeth. Cyfeirir o 3.1 uchod.<br><br>O fewn y Gwasanaethau Plant mae'r rhain yn cynnwys:-<br>• Archwiliad o gyfarfodydd a gynhaliwyd dan Ran IV Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan yn Ynys Môn yn ystod 2013 (Awdur: Sue Maskell, 2014)<br>• Adolygiad o Ymarfer Plant, Adolygiad Cryno, BLlDP Gwynedd ac Ynys Môn (Awduron: John Tate a Glyn Hughes, Awst 2013).<br>• Adroddiad Archwilio, Cofrestr Diogelu Plant Ynys Môn, Sue Maskell, 2014<br>• Morning Lane: Adolygiad o Effaith Ymarfer a Systemau ar Siwrnai'r Plentyn (Mai 2014)<br>• Arolygiad cenedlaethol Diogelu a Chynllunio Gofal plant sy'n derbyn gofal a gadawyr gofal sy'n arddangos ymddygiad bregus neu beryglus (AGGCC Awst 2014).<br>• Arolygiadau Rheoleiddiol gan AGGCC (Gwasanaeth Mabwysiadu)(Gwasanaeth Maethu)<br>• Adolygiad Achos Penodol( Anwen Huws PG, 2014)<br>• Adolygiadiadau  Ymarfer Estynedig Plant : (Grŵp Adolygu Ymarfer Plant 2014) yn mynd rhagddynt<br>• Archwiliad allanol o achosion Adran 20 Ynys Môn (Sue Maskell 2014)<br>• Nifer o adroddiadau archwilio mewnol<br>• Archwiliadau achos dan y Bwrdd Cyflawni Lleol a'r Is-grŵp Archwilio a Sicrwydd Ansawdd amlasiantaethol. |
| 3.4 | **Crynodeb o gamau sy'n parhau i fod angen sylw dan archwiliad Adran 28:**<br>Gweler yr archwiliad sydd ynghlwm. |
| 3.5 | **Beth ddywedodd y gweithgaredd hwn o ran diogelu plant, monitro a gwerthuso dweud wrth y sefydliad am effeithiolrwydd y trefniadau i ddiogelu plant a'r hyn a wnaed o ganlyniad i'r canfyddiadau?**<br><br>Mae'r casgliadau/canfyddiadau, y gwersi a ddysgwyd ac argymhellion yr adroddiadau yn nodi ac yn blaenoriaethu'r themâu cyffredin mewn perthynas â'r ymarferion diogelu o'r herwydd, dylai nodi themâu o'r fath alluogi'r Awdurdod Lleol i nodi cryfderau yn y meysydd gwasanaeth sydd angen eu gwella a'r newidiadau y mae angen eu gwneud i sicrhau ymgysylltiad effeithiol gyda phartneriaid a theuluoedd i reoli risg yn well. Mae hyn yn ei dro o gymorth i ni gyflawni'r Cynllun Gweithredu i wella'r rhaglen. |
| 3.6 | **A ydyw eich asiantaeth wedi gweithredu/neu sefydlu unrhyw gynlluniau gweithredu yn codi o Adolygiadau Achos Difrifol/Adolygiadau o Ymarfer Plant neu Adolygiadau Rheoli Mewnol?**<br>Do – mae hyn yn bwydo i mewn i'n cylch gwella rheolaidd. |

| 3 | DIOGELU PLANT – GWEITHGAREDDAU MONITRO A GWERTHUSO / SICRHAU ANSAWDD |
|---|---|
| 3.7 | **Beth yw cryfderau eich sefydliad a meysydd y mae angen eu gwella o ran diogelu plant a sut fydd y gwelliannau hyn yn cael eu cyflawni?**<br>**a)** Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau i Wasanaethau Plant a'i Wasanaethau Addysg ac mae ar hyn o bryd yn symud i gyfnod o ddatblygu a gwella trefniadau diogelu yn fwy cyffredinol.<br>**b)** Mae gan y Cyngor Fwrdd Diogelu Corfforaethol a swyddogaeth y Bwrdd i'w sicrhau bod dyletswyddau allweddol y Cyngor o ran diogelu plant ac oedolion bregus yn cael eu cyflawni'n ddigonol.<br>**c)** Mae nifer o bolisïau a gweithdrefnau cysylltiadau wedi cael eu hadolygu a rheolwyr wedi derbyn hyfforddiant. Yn ystod 2015/16, bwriedir i bob Bennaeth Gwasanaeth dderbyn cefnogaeth unigol i weithredu eu hamcanion diogelu.<br>**d)** Mae polisi'r Cyngor ar ddiogelu'r plant wedi cael ei fabwysiadu. Mae gan y Cyngor Gynllun Gweithredu ar gyfer y polisi diogelu er mwyn sicrhau y gweithredir arno'n llawn. Fodd bynnag, cafwyd rhywfaint o oedi o ran cynnydd ar y cynllun gweithredu yn erbyn y dyddiad targed gwreiddiol.<br>**e)** Cynhelir gwerthusiad blynyddol ym mhob ysgol ynghylch diogelu gan ddefnyddio cerdyn adrodd safonol. Hefyd adroddir ar berfformiad ar lefel y gwasanaethau plant gyda hynny'n golygu adrodd ar ddangosyddion perfformiad statudol. Ar gyfer 2015/16, bydd pob gwasanaeth yn gosod amcanion a mesurau diogelu.<br>**f)** Bydd cyflawni amcanion y polisi diogelu a'r cynllun gweithredu o gymorth i gyflwyno sgriwtini mwy effeithiol o faterion diogelu. Ochr yn ochr a hyn, byddir yn sefydlu cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer diogelu yn 2015/16.<br>**g)** Gwnaed cynnydd o ran trefniadau'r Cyngor ar gyfer recriwtio diogel ac mae'r swyddogaeth AD wedi datblygu ac adolygu nifer o bolisïau allweddol. Bydd cyflawni amcanion y cynllun gweithredu diogelu o gymorth i gyflwyno sgriwtini mwy effeithiol o weithrediad y polisïau hyn. |
| 3.8 | **Beth ydych chi wedi ei wneud i asesu anghenion hyfforddi a datblygu staff o ran diogelu plant? Beth oedd y canlyniadau a'r materion yn codi o'r asesiad hwn?**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu datblygu ei fframwaith hyfforddi diogelu erbyn 2015/16. Ein strategaeth oedd sicrhau bod Aelodau ac Uwch Swyddogion allweddol a Swyddogion diogelu dynodedig yn cael lefel gyson o hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu. O ran monitro ymwybyddiaeth a gallu staff o ran diogelu, dengys cofnod hyfforddiant y Cyngor bod staff yn mynd i sesiynau penodol ynghylch diogelu ac mae'r sesiwn gynefino gorfforaethol yn cynnwys rhan ar ddiogelu. Bydd y rhaglen hyfforddi diogelu yn cael ei chwblhau a'i defnyddio ar draws y Cyngor a bydd presenoldeb yn cael ei fonitro'n llawn. |
| 3.9 | **Pa ymgynghori mewnol ac allanol ddigwyddodd dros y flwyddyn o ran diogelu plant a beth yw materion allweddol yn codi o'r ymgynghori hwnnw?**<br><br>Dim gweithgareddau penodol. |

| 4 | CYNNYDD AR FEYSYDD POLISI Y MAE ANGEN RHOI BLAENORIAETH IDDYNT |
|---|---|
| 4.1 | **Yr hyn a wnaed yn lleol yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i ddisgwyliadau** |

| 4 | CYNNYDD AR FEYSYDD POLISI Y MAE ANGEN RHOI BLAENORIAETH IDDYNT |
|---|---|
| | **cenedlaethol ac angen lleol o ran diogelu plant:**<br><br>Mewn ymateb i fwriad y Dirprwy Weinidog ar gyfer Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol i ostwng nifer y BLIDP yng Nghymru, bu'r Awdurdod Lleol yn rhan o'r broses o sefydlu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Rydym yn parhau i fod yn aelodau gweithredol ac yn cyfrannu at y rhaglen ddiogelu ar sail leol a rhanbarthol.<br><br>Ym mis Tachwedd 2012, arweiniodd honiadau hanesyddol pellach o gam-drin plant at sefydlu Ymgyrch Pallial a'r adolygiad Macur yng Ngogledd Cymru. Rydym yn fodlon ein bod yn cydymffurfio gydag argymhellion ymchwiliadau blaenorol a chyda'r Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru, ein bod yn sicrhau fod cefnogaeth a gwasanaeth cwnsela priodol ar gael i ddioddefwyr sy'n dod ymlaen o ganlyniad i'r ymchwiliadau diweddar.<br><br>**Gweithredu'r Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus**<br>Ym mis Hydref 2013, gweithredwyd y canllawiau newydd o ran achosion llys o'r enw Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus a'r angen i'w cwblhau ymhen 26 wythnos. Mae 16 o'n staff wedi cael yr hyfforddiant craidd a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer gwneud gwaith o fewn yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus ac ar hyn o bryd, rydym wrthi'n adolygu ein prosesau yn wyneb y profiad o ymarfer dros y flwyddyn.<br><br>**Gweithio mewn partneriaeth**<br>Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ar draws asiantaethau i ddatblygu gwaith diogelu yn Ynys Môn yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i archwilio'r cynllun busnes i sefydlu Hyb Diogelu Amlasiantaethol wedi ei gydleoli (MASH) yn Ynys Môn er mwyn derbyn ac asesu risg o ran cyfeiriadau ynghylch diogelu plant, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, camdriniaeth ddomestig ac oedolion bregus. Byddai hyn yn caniatáu i wybodaeth berthnasol gael ei rhannu rhwng asiantaethau mewn modd amserol cyn penderfynu ar yr ymyrraeth y byddai ei angen gan y timau cyfredol yn yr asiantaethau. Rydym wedi gweithio'n llwyddiannus gyda Chyngor Gwynedd a phartneriaid i ddarparu'r gwasanaeth Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd ar sail gydweithredol.<br><br>Cyfeiriwch hefyd at 1.1 |

| 4 | CYNNYDD AR FEYSYDD POLISI Y MAE ANGEN RHOI BLAENORIAETH IDDYNT |
|---|---|
| 4.2 | **Pa effaith cafodd y gweithgareddau hyn ar drefniadau a chanlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc**<br>Gall plant fod yn sicr:<br>- Bod yr Awdurdod Lleol wedi cynnal y gwiriadau addas cyn cyflogi pobl i weithio gyda nhw.<br>- Bod yr Awdurdod Lleol yn canolbwyntio ar weithio o fewn y gofynion statudol perthnasol ac yn anelu at wneud penderfyniadau amserol a chadarn am eu diogelwch.<br>- Bod yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod gan yr holl blant a chynllun diogelu plant weithiwr cymdeithasol penodol.<br>- Bydd y risg i'r rhan fwyaf o blant yn cael ei leihau o fewn 6 mis o'r gynhadledd gyntaf.<br>- Byddant yn cael cymorth os ydynt mewn perygl o gael eu camfantesio'n rhywiol arnynt ac y bydd yr asiantaethau'n gweithio gyda'n gilydd i gyflawni hyn.<br>- Mae'r Awdurdod Lleol yn glir bod diogelu yn flaenoriaeth ac y bydd anghenion ychwanegol plant sy'n derbyn gofal a gadawyr gofal yn cael eu cydnabod. |
| 4.3 | **Beth oedd cyfraniad eich sefydliad at hyrwyddo blaenoriaethau BDPGC ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, a beth yw eich cyfraniad ar gyfer y flwyddyn gyfredol?**<br><br>Mae gan yr Awdurdod Lleol aelodau ar y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol a'r Grwpiau Cyflawni Lleol – ac mae'n aelodau o nifer o is-grwpiau neu cadeirio. Mae Swyddogion yr Awdurdod Lleol wedi cymryd rhan mewn nifer o adolygiadau ymarfer gan gyfrannu at y dysgu a'r gwelliant ar lefel ranbarthol. |

| 5 | BLAENORIAETHAU A NODWYD GAN EICH SEFYDLIAD |
|---|---|
| 5.1 | **Beth yw'r blaenoriaethau a nodwyd gennych o ran diogelu plant ar gyfer y flwyddyn nesaf a sut ydych chi'n bwriadu symud ymlaen gyda'r rhain?**<br><br>▪ Byddwn yn cwblhau ac yn gweithredu'r trefniadau ar gyfer sgriwtineiddio'n effeithiol yr holl agweddau ar ddiogelu plant.<br>▪ Bydd diogelu'n cael ei wreiddio'n gadarn yn amcanion, cynlluniau busnes, a threfniadau rheoli risg pob adran. Bydd y Cerdyn Sgorio Diogelu Corfforaethol yn cael ei sefydlu.<br>▪ Bydd Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu) newydd yn cael ei sefydlu ac yn cael y dasg o adolygu'r cynllun gweithredu corfforaethol, a gyrru cyflwyniadau yn erbyn yr amserlenni diwygiedig a sefydlu'r Gwasanaeth Diogelu Pobl.<br>▪ Bydd y rhaglen hyfforddi diogelu yn cael ei chwblhau a'i defnyddio ar draws yr Awdurdod a bydd presenoldeb yn cael ei fonitro'n llawn.<br>▪ Bydd sefydlu sgriwtini ffurfiol rheolaidd o ran diogelu yn flaenoriaeth.<br>▪ Cynnal a chyfnerthu'r perfformiad a gyflawnwyd yn ystod 2013/14 o ran DP Allweddol sy'n sicrhau y bydd gan blant cynlluniau diogelu plant da a chyfredol sy'n sicrhau y bydd modd cwrdd â'u hanghenion. |

| 6 | ATODIADAU DATA/DANGOSYDDION PERFFORMIAD |
|---|---|

| Papurau Cefndir | LLEOLIAD | GWYBODAETH AR WEFAN |
|---|---|---|
| | | |

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

SCRUTINY

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cadeirydd: Y Cynghorydd Derlwyn Hughes
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Alun Mummery

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o fis Mai 2014 i fis Mai 2015. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| **13 Mai 2014** | Enwebiadau Pwyllgor i'r Panel Rhiant Corfforaethol | Enwebu aelod o'r Pwyllgor at y Panel sy'n gweithredu ar ran y Cyngor, sy'n sicrhau gwasanaethau i blant a pobl ifanc mewn gofal o safon uchel. | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Cynllun Integredig Sengl | Ymgynghoriad | |
| | Clirio ffeiliau o hen Ysgol y Graig | Sgriwtini | |
| | | | |
| **11 Gorffennaf 2014** | Cyfarwyddwyddyd Cynllunio Atodol – Adeilad Niwcliar Newydd | Sgriwtini o flean penderfyniad | Siambr y Cyngor/10.30 yb |
| | | | |
| **24 Gorffennaf 2014** | Heddlu Gogledd Cymru | Cyflwyniad gan Heddlu Gopgledd Cymru are eu canolfan Cyfathrebu. | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Trefniadau Rhanbarthol a Lleol i Ddiogelu Plant ac Oedolion | Sgriwtini o flean penderfyniad | |
| | Comisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yn Rhanbarthol | Diweddariad | |
| | Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Ynys Fenter | Mae tri bwrdd wedi eu sefydlu gan y Cyngor i yrru newid a gwelliant ac i gouchwylio rhaglen o waith. Yn disgyn o cylch gorchwyl y Pwyllgor yma yw " Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Ynys Fenter" ac y | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| | | bydd diweddariad yn cael ei roi ar y sefyllfa bresennol a gwaith ar y gweill. | |
| | | | |
| **25 Medi 2014** | Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ynys Mon ac Gwynedd | Gwybodaeth | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Cymunedau Cyntaf Môn | Monitro cynnydd | |
| | Strategaeth Tai | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |
| | Ffioedd a Thaliadau ar gyfer cychod pleser /wedi eu llogi o amgylch Ynys Môn | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |
| | Rhaglen Gwaith Bwrdd Cyflawni Iechyd a Gofal Integredig ar Gyfer Ynys Môn | Gwybodaeth | |
| | Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru- Cynllun Gwella a Lleihau Risg 2015-2016 | Ymgynghoriad | |
| | | | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| **27 Tachwedd 2014** | Cynllun Integredig Sengl | Diweddariad ar :<br>• Cynllun Integredig Môn a Gwynedd; ac<br>• Sgriwtni ar y cyd o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gyda Cyngor Gwynedd | |
| | Budd-dal Cyfrif Refeniw Tai | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |
| | Newidiadau i Polisi Grantiau Tai | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |
| | GwE- Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol i Ogledd Cymru | Perfformiad yn erbyn cytundeb lefel gwasanaeth | |
| | Broses Cynrychiolaeth a Cwynion Gwasanethau Cymdeithasol 13-14 ( Adroddiad Blynyddol Cwynion) | Perfformiad | |
| | Diogelu Oedolion | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |
| | | | |
| **14 Ionawr 2015** | Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol-Opsiynau | Diweddariad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Fframwaith Adrodd Blynyddol - adolygiad blynyddol a gwerthusiad o berfformiad 2013/2014 llythyr gan CSSIW | Perfformiad | |
| | Diogelu Corfforaethol | Perfformiad | |
| | | | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| **12 Mawrth 2015** | Diogelwch Cymunedol | Trosolwg Blynyddol ar Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | | | |

This page is intentionally left blank